# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 19 EBRILL 2023 am 2.00 y. p.** | **WEDNESDAY, 19 APRIL, 2023 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones ***(Is-Gadeirydd)***, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Roberts

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)
R. Llewelyn Jones ***(Cadeirydd)***

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o funes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 28 Chwefror, 2023
- 14 Mawrth, 2023

**3 STRATEGAETH RHIANTU CORFFORAETHOL 2023-28** (Tudalennau 19 - 42)

Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**4 MEYSYDD GWELLIANT HUNAN-ASESIAD 2022** (Tudalennau 43 - 62)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**5 ENWEBIAD I'R PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 63 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn hybrid ar 28 Chwefror 2023

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Douglas Fowlie, Aled M. Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts

Aelod Cyfetholedig: Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer).

**Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac Aelodau Eraill y Cyngor (trwy wahoddiad)**

Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Pip O'Neill, Dylan Rees, Margaret Roberts, Ken Taylor.

**WRTH LAW**:

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**:

Y Cynghorydd Arfon Wyn, Y Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Gwasanaethau Ieuenctid)
Y Cynghorwyr Trefor Ll. Hughes, MBE, John I Jones, Derek Owen, Liz Wood (gwahoddedigion)

---



DRAFT

| | |
|---|---|
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg) |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a gynhaliwyd ar y dyddiadau a'r amseroedd a ganlyn, a chadarnhawyd eu bod yn gywir –

- 19 Ionawr 2023 (cyfarfod bore)
- 19 Ionawr 2023 (cyfarfod prynhawn)

## 3 GOSOD CYLLIDEB 2023/24 – CYNIGION DRAFFT TERFYNOL Y GYLLIDEB REFENIW

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses o osod Cyllideb 2023/24 ynghyd â materion a chwestiynau allweddol ar gyfer Sgriwtini wrth i'r Pwyllgor arfarnu cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb refeniw. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog Adran 151, a fydd gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2023, ynghlwm yn Atodiad 1, ac roedd yn amlinellu cynigion manwl y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24 er mwyn eu hadolygu a chytuno'n derfynol arnynt cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 9 Mawrth.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a dywedodd ei fod yn ddilyniant i gynigion cychwynnol drafft y gyllideb refeniw a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 19 Ionawr ac mae'n cynnwys cyllideb arfaethedig o £172.438m ar gyfer 2023/24. Roedd y Cyllid Allanol Cyfun dros dro o £123.555m yn golygu bod angen cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ynghyd â defnyddio £1.758m o falansau cyffredinol y Cyngor i gydbwyso'r gyllideb. Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o risgiau oherwydd chwyddiant, costau ynni uchel, cytundebau tâl, y galw am wasanaethau a gostyngiad posib yn yr incwm a gynhyrchir trwy godi ffioedd am wasanaethau megis hamdden, cynllunio a pharcio wrth i'r argyfwng costau byw barhau i effeithio ar aelwydydd. Derbyniodd yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar amcanion strategol y Cyngor ymateb cadarnhaol i'r bwriad i gyfuno cynnydd yn y Dreth Gyngor, rhoi arbedion ar waith a defnyddio cronfeydd y Cyngor er mwyn llunio cyllideb gytbwys ac roedd y Pwyllgor Sgriwtini'n cefnogi'r dull hwn hefyd. Heblaw am y newidiadau a amlinellir yn yr adroddiad o dan adran 4, a'r mân addasiadau i'r gyllideb sy'n deillio ohonynt, mae'r un newid sylweddol sy'n effeithio ar y gyllideb ers cyflwyno'r cynigion cychwynnol drafft yn codi yn sgil y cyhoeddiad ddiwedd yr wythnos ddiwethaf am y cynnig tâl cychwynnol ar gyfer 2023/24 i staff y Cyngor, ac eithrio athrawon, sydd gyfystyr â chodiad cyfartalog o thua 7%; cyflwynwyd hyn gan y cyflogwr fel "cynnig llawn a therfynol". Gan fod cyllideb ddrafft 2023/24 yn caniatáu ar gyfer codiad cyflog o 3.5%, rhydd hyn bwysau ychwanegol o £2m ar y gyllideb. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried sut y gellir ariannu'r gost ychwanegol ac mae'n cynnig defnyddio cronfeydd wrth gefn i wneud hynny gan na fyddai'n realistig canfod gwerth £2m o arbedion heb eu cynllunio mor hwyr â hyn yn y broses ac ni fyddai cynnydd uwch yn y Dreth Gyngor yn dderbyniol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Er iddo amlygu pwysigrwydd sicrhau fod cronfeydd digonol ar gael i gwrdd â chostau ychwanegol tebyg i hyn, pwysleisiodd yr Aelod Portffolio na ddylid, serch hynny, ddefnyddio cronfeydd ar hap; dylid edrych arno fel arian sy'n cael ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio i ddelio gyda digwyddiadau annisgwyl a/neu argyfyngau. Oherwydd i'r Cyngor fod yn ddarbodus wrth reoli ei gyllid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu ac mae'r

adnoddau hynny ar gael yn awr i gynorthwyo'r Cyngor a thrigolion yr Ynys yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn ogystal â chaniatáu'r Cyngor i fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol, bydd gweithredu'n ddarbodus ac yn ofalus yn rhoi sicrwydd ariannol iddo ar gyfer y dyfodol. Y cynigion terfynol sy'n cael eu hargymell gan y Pwyllgor Gwaith felly yw y dylid gosod y gyllideb fel y caiff ei hamlinellu yn adroddiad y Swyddog Adran 151; bod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn aros ar 5% a bod cronfeydd y Cyngor yn cael eu defnyddio i gwrdd ag unrhyw ddiffyg yn y setliad terfynol o gymharu â'r setliad dros dro.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei bod yn ofynnol iddo osod cyllideb sy'n adlewyrchu costau tybiedig darparu gwasanaethau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddilynol ac adrodd ar hynny i'r Cyngor. Roedd y cyhoeddiad hwyr ynghylch y cynnig tâl yn golygu fod rhaid adolygu'r gyllideb a gwneud darpariaeth ychwanegol i gwrdd â chost y cynnig. Dywedodd fod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn gostwng lefel y cronfeydd sydd ar gael ac nid yw'n ateb cynaliadwy o ran sefyllfa ariannol y Cyngor yn y tymor hir ac mae'n golygu y bydd rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch hynny yn 2024/25. Fodd bynnag, mae lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn cynnig yr opsiwn o wneud defnydd mwy cyfyngedig ohonynt yn 2024/25 i gydbwyso'r gyllideb, os bydd rhaid gwneud hynny, ac mae'n ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cyfradd chwyddiant, lefel cytundebau tâl a'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2024/25. Bydd rhaid gwneud yr asesiad hwnnw'n gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd er mwyn caniatáu digon o amser i gynllunio ar gyfer y gyllideb ac unrhyw doriadau angenrheidiol posib mewn gwasanaethau, yn ogystal â chynnal trafodaeth am lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor. Dywedodd y Swyddog Adran 151, er ei fod yn teimlo'n gyfforddus ynghylch defnyddio cronfeydd i gydbwyso cyllideb 2023/24 gan fod lefel presennol cronfeydd y Cyngor yn golygu y gellir gwneud hynny heb greu unrhyw risg ariannol i'r Cyngor, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd ynghylch blwyddyn ariannol 2024/25 y bydd rhaid i'r Cyngor gynllunio ar ei chyfer yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, ystyriodd y Pwyllgor gynigion terfynol drafft y gyllideb o'r safbwyntiau a ganlyn a cheisiodd sicrwydd gan y Swyddog Adran 151 a'r Aelod Portffolio ar y materion a godwyd –

- Rhagolygon chwyddiant yn ystod y flwyddyn nesaf, a'r rhagdybiaeth yw y bydd cyfradd chwyddiant sy'n gostwng yn lleihau'r tebygolrwydd a/neu'r cyfiawnhad dros gytundebau tâl uchel gan leihau pwysau ar gyllideb y Cyngor.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod darogan cyfradd chwyddiant yn dasg anodd, yn arbennig gan na chafodd chwyddiant isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf fawr o effaith ar y gyllideb, ond mae'r gyfradd bresennol, sef 10%, wedi cael effaith sylweddol. Ystyriwyd nifer o senarios yn gysylltiedig â chwyddiant, ynghyd â rhagolygon Banc Lloegr, a defnyddiwyd y canlyniad mwyaf tebygol i wneud darpariaeth ar gyfer chwyddiant yn y gyllideb ar gyfer 2023/24. Er y rhagwelir y bydd chwyddiant yn gostwng tuag at ddiwedd 2023 ac yn 2024, daw'r sefyllfa'n fwy eglur wrth i'r Cyngor baratoi ei gyllideb ar gyfer 2024/25 ac mae hyn hefyd yn debygol o ddylanwadu ar gytundebau tâl. Mae staff Llywodraeth Leol sydd ar y graddfeydd tâl isaf wedi derbyn codiadau cyflog hael dros gyfnod o ddwy flynedd ac, os cyplysir hynny â gostyngiad mewn chwyddiant, bydd yn anos i weithwyr fynnu codiadau cyflog uchel.

- I ba raddau mae'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i bwysau a heriau gwasanaeth.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod dau reswm dros y pwysau ar wasanaethau. Mae'n cael ei achosi gan chwyddiant a'r cynnydd mewn costau yn sgil hynny, yn ogystal â'r galw am wasanaethau. Mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer chwyddiant a'r cynnydd mewn costau yn sgil hynny a dyma'r rheswm pennaf am y cynnydd o £16m yn y gyllideb, o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gyllideb yn cynnwys asesiad gorau o'r galw yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, gan fod y pwysau mwyaf ar y gwasanaethau hynny. Er bod adroddiad monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Chwarter 3 2022/23, a fydd gerbron y

Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, yn dangos fod gwasanaethau yn gyffredinol yn gwario'n unol â'r gyllideb, mae cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant yn gorwario ac, o ddiystyru eitemau untro megis swyddi gwag, arian grant a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, mae sefyllfa ariannol wirioneddol gwasanaethau yn llawer gwaeth. Ystyriwyd hyn wrth lunio cyllideb 2023/24. Y brif risg ar hyn o bryd yw effaith yr argyfwng costau byw ar deuluoedd a allai, yn ei dro, greu mwy o alw am Wasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai wrth i gostau tai greu anawsterau i bobl. Os bydd yr economi'n dechrau adfer, yna'r gobaith yw y bydd pwysau yn y meysydd hyn yn lleddfu.

- A fydd y cynigion yn cael effaith niweidiol ar ddinasyddion Ynys Môn, neu ar unrhyw grwpiau a warchodir, a sut mae'r Cyngor yn cefnogi unigolion a allai fod yn wynebu anawsterau

Hysbyswyd y Pwyllgor fod cyllid yn cael ei ddyrannu i wasanaethau pan lunnir y gyllideb, gan gynnwys y gwasanaethau hynny sy'n darparu ar gyfer preswylwyr bregus, ac mae pob gwasanaeth yn asesu'r anghenion tebygol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Gan mai'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau plant sy'n cefnogi'r grwpiau sydd â'r angen mwyaf, mae cynnydd o thua £6m yng nghyllidebau'r ddau wasanaeth gyda'i gilydd ar gyfer 2023/24 er mwyn caniatáu iddynt ddarparu ar gyfer lefel newydd gynyddol y galw ac, yn ogystal, mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys buddsoddiad yn y gwasanaeth digartrefedd. Er fod y gyllideb yn cynyddu'r Dreth Gyngor, gall unrhyw un sy'n cael anawsterau i dalu'r Dreth Gyngor ofyn am gymorth trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu Gynllun Gostyngiadau Dewisol y Dreth Gyngor. Wrth ddrafftio'r gyllideb, mae'r Cyngor yn ceisio gwarchod gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant bregus cyn belled â phosib.

- Y defnydd arfaethedig o gyllid a ryddhawyd o ganlyniad i newidiadau mewn ardollau a chyfraniadau at wasanaethau ar y cyd a wnaed ar ôl cyflwyno cynigion cychwynnol y gyllideb, ac y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yn adran 4.4. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y cynnydd arfaethedig yng nghapasiti'r Tîm Datblygu Economaidd, gan gynnwys beth oedd pwrpas hynny.

Hysbyswyd y Pwyllgor y caiff y buddsoddiad arfaethedig o £69k yn y Tîm Datblygu Economaidd ei ddefnyddio i ariannu un swydd a bydd yn cynorthwyo'r Tîm i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd datblygu economaidd ac arian grant e.e. datblygu Porthladd Rhydd a chynlluniau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro, sy'n gofyn am fewnbwn ychwanegol gan y Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn pellach am y gostyngiad ym malans y cronfeydd clustnodedig o £24.46m ar ddechrau 2022/23 i £9.973m, sef y swm a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, eglurodd y Swyddog Adran 151 y symudiadau yn y cronfeydd yn ystod y flwyddyn a chadarnhaodd y byddai'n darparu rhestr ysgrifenedig ohonynt i'r aelod a ofynnodd y cwestiwn.

Cyflwynwyd sylwadau gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid, a oedd yn cadarnhau fod y Panel yn fodlon â'r defnydd arfaethedig o'r cyllid a ryddheir o ganlyniad i'r newidiadau yn yr ardollau a chyfraniadau at wasanaethau ar y cyd.

- Cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor er mwyn gwireddu cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2023/24.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod dau opsiwn o ran penderfynu ar lefel y Dreth Gyngor – naill ai argymell cynnydd is yn y Dreth Gyngor fel rhan o gyllideb 2023/24 a defnyddio mwy o arian wrth gefn y Cyngor a/neu wneud mwy o arbedion er mwyn gwneud yn iawn am y diffyg yn y gyllideb, ond gallai hynny beryglu sefyllfa ariannol y Cyngor yn y tymor hwy, neu ddefnyddio llai o gronfeydd y Cyngor a chyflwyno cynnydd uwch yn y Dreth Gyngor. Barn y Pwyllgor Gwaith yw na ellir cyfiawnhau codiad o fwy na 5% yn y Dreth Gyngor ar hyn o bryd, yn enwedig gan fod nifer o bobl yn wynebu caledi ariannol, felly, er mwyn gosod cyllideb

DRAFT

2023/24, mae wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi arbedion ar waith, cynyddu'r Dreth Gyngor a defnyddio arian wrth gefn y Cyngor.

- Sut fyddai'r Cyngor yn mynd i'r afael ag unrhyw sefyllfaoedd annisgwyl eraill o ystyried y cyhoeddiad ynghylch y cynnig tâl uwch na'r disgwyl i staff llywodraeth leol nad ydynt yn athrawon.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod codiadau cyflog athrawon yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru fel arfer, felly, os yw'r dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon o fis Medi 2023 yn uwch na'r 3.5% sydd yn y gyllideb, byddai'r Cyngor yn disgwyl derbyn cyllid tuag at y gost. Serch hynny, mae'r Cyngor yn wynebu nifer o risgiau eraill, fel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, a, phe byddai unrhyw un ohonynt yn cael eu gwireddu yna byddai'n rhaid i'r Cyngor ymdrin â nhw cystal ag y gallai ar y pryd.

Ar ôl craffu ar gynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb, ac ystyried y sicrwydd a roddwyd a'r eglurhad a ddarparwyd mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol a chefnogi grwpiau bregus, roedd y Pwyllgor, ar y cyd, yn fodlon fod cynigion drafft terfynol y gyllideb refeniw yn deg a bod y cyfuniad o arbedion, cynnydd yn y Dreth Gyngor a defnyddio arian wrth gefn sy'n cael ei argymell yn rhesymol o ystyried yr amgylchiadau a'i fod yn caniatáu i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd cefnogi ac argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn creu cyllideb gytbwys –**

- **Cyllideb arfaethedig o £174.569m ar gyfer 2023/24**
- **Cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor**
- **Defnyddio arian o'r balansau cyffredinol i ariannu unrhyw fwlch rhwng y setliad cyllideb terfynol a'r setliad dros dro**

*(Bu i'r Cynghorydd Aled M. Jones atal ei bleidlais)*

## 4 GOSOD CYLLIDEB 2023/24 – CYNIGION DRAFFT TERFYNOL Y GYLLIDEB GYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses ar gyfer gosod Cyllideb Gyfalaf 2023/24, gan gynnwys rôl allweddol Strategaeth Gyfalaf y Cyngor gan fod ei hegwyddorion yn sail i raglen gyfalaf y Cyngor. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fydd gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2023, ynghlwm yn Atodiad 1 ac roedd yn nodi'r cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2023/24 i'w cymeradwyo i'r Cyngor Llawn ar 9 Mawrth.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, fod gwneud buddsoddiadau cyfalaf yn dod yn fwyfwy anos gan na welwyd fawr o gynnydd yn yr adnoddau i gefnogi gwariant cyfalaf, a Chyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru yn benodol, ers nifer o flynyddoedd ac mae gwerth y cyllid wedi erydu'n sylweddol yn ystod y deuddeg mis diwethaf oherwydd chwyddiant. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell cyllideb gyfalaf o £37.962m ar gyfer 2023/24 sydd yn cynnwys cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2022/23; adnewyddu a/neu amnewid asedau; prosiectau cyfalaf untro newydd; rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), a bydd yn cael ei hariannu gan y Grant Cyfalaf Cyffredinol, Benthyca â Chymorth a Derbyniadau Cyfalaf, ac, yn achos y CRT, cronfa'r CRT.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod grantiau ychwanegol yn debygol o gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn a byddant yn cael eu hymgorffori yn y gyllideb gyfalaf. At ei gilydd, ni welwyd fawr o newid yng nghyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol a benthyca â chymorth, ers

nifer o flynyddoedd ac mae cyllid grant ychwanegol yn elfen gynyddol bwysig o gyllid cyfalaf. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio derbyniadau cyfalaf yn gyfyngedig iawn gan fod unrhyw asedau nas gwerthwyd wedi'u clustnodi'n barod ar gyfer cynlluniau presennol. Mae'r Cyngor felly'n gynyddol ddibynnol ar grantiau cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ariannu unrhyw fuddsoddiadau tu hwnt i gynnal ei asedau presennol.

Wrth ystyried y cynigion ar gyfer y gyllideb gyfalaf, codwyd y materion a ganlyn gan y Pwyllgor –

- P'un ai yw cynigion y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau tymor canol wrth gydbwyso pwysau yn y tymor byr, a ph'un ai yw egwyddorion Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei amcanion corfforaethol.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod y cyllid cyfalaf craidd gan Lywodraeth Cymru bellach ond yn ddigonol i gwrdd â chostau atgyweirio ac adnewyddu asedau presennol y Cyngor a dibynnir ar arian grant ar gyfer unrhyw fuddsoddiadau newydd. Mae sefyllfa'r Cyfrif Refeniw Tai yn wahanol gan fod lefelau cronfeydd y CRT, sy'n cael eu defnyddio i ariannu tai newydd, yn iach. Bydd y CRT yn benthyca ar ôl i'w gronfeydd wrth gefn ostwng i'r isafswm a osodwyd yng Nghynllun Busnes y CRT er mwyn parhau â'r gwaith datblygu hwnnw; mae'r CRT yn cynhyrchu digon o refeniw o incwm rhent i gwrdd â chostau benthyca yn y dyfodol. Felly, mae sefyllfa'r CRT yn golygu fod mwy o fuddsoddiad a gwariant cyfalaf yn bosib ar yr ochr dai o gymharu â'r hyn y gall y Grant Cyfalaf Cyffredinol ei gyflawni ar gyfer gweithgareddau eraill yn y Strategaeth Gyfalaf; fodd bynnag, mae'r CRT wedi'i glustnodi, ac, o dan y gyfraith, ni chaniateir ei ddefnyddio i ariannu unrhyw weithgaredd neu fuddsoddiad nad yw'n gysylltiedig â stoc dai'r Cyngor.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr, os bydd y rhagolygon ariannol ac economaidd yn aros yr un fath yn y tymor canolig a'r tymor hir, yna bydd rhaid i'r Cyngor ystyried a yw'n gallu parhau i gynnal ei holl adeiladau/asedau i lefel dderbyniol ac, o'r herwydd, efallai y bydd rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Nid yw arian grant yn cael ei warantu gan fod arian grant yn aml yn cael ei ddyfarnu ar sail gystadleuol ac nid yw hyn yn creu amgylchedd ddelfrydol ar gyfer cynllunio gwariant a buddsoddiad cyfalaf yn y tymor hir.

- I ba raddau mae'r Cyngor yn rhydd i wario arian cyfalaf ar flaenoriaethau lleol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod modd i'r Cyngor wario'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r elfen benthyca â chymorth gan Lywodraeth Cymru fel y mynno, ond bellach nid yw'r cyllid hwnnw ond yn ddigonol i gwrdd â chostau cynnal asedau presennol. Mae'r Cyngor yn ddibynnol ar grantiau cyfalaf ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ychwanegol ond gosodir amodau ar nifer ohonynt sy'n eu cyfyngu i faes gwasanaeth neu weithgaredd benodol. Gall y Cyngor fenthyca heb gymorth, gan olygu y byddai'n rhaid iddo ariannu cost y benthyciad o'i ffynonellau refeniw ei hun; mae'r Côd Darbodus yn gosod cyfyngiadau ar fenthyca'r Cyngor i sicrhau fod unrhyw fenthyciadau'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy, oni bai y gellir dangos fod y benthyca ar gyfer cynlluniau sy'n gallu cwrdd â'u costau neu sy'n cynhyrchu arbedion refeniw.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid, fod y Panel wedi craffu ar y gyllideb gyfalaf ddrafft derfynol yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2023 a'i fod wedi tynnu sylw at lefel y llithriad blynyddol yn y rhaglen gyfalaf sy'n awgrymu, efallai, fod rhagolygon y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf yn rhy optimistaidd.

Ystyriodd y Panel sut y gallai gynorthwyo i fonitro cynnydd mewn perthynas â gwariant cyfalaf.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, ac ystyried adborth y Panel Sgriwtini Cyllid, penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith gyllideb gyfalaf arfaethedig o £37.962m ar gyfer 2023/24.**

DRAFT

*(Bu i'r Cynghorydd Aled M. Jones atal ei bleidlais)*

## 5 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Cyllid, adroddiad ar ganlyniad cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2023, a chyfeirir at y sylwadau yn y naratif ar eitemau 3 a 4 uchod.

## 6 CYNLLUN Y CYNGOR 2023-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori Cynllun y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Cyflwynwyd Cynllun y Cyngor gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, a dywedodd ei fod yn benllanw 12 mis o waith paratoi, gan gynnwys ymgynghori'n helaeth â staff y Cyngor, aelodau etholedig a thrigolion Ynys Môn ynghylch amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad a'i ganlyniadau a rhoddwyd sylw i'r materion hynny yn yr adroddiad Datblygu Amcanion Strategol y Cyngor 2023-28 a fu gerbron y Pwyllgor hwn ar 19 Ionawr 2023. O ganlyniad i'r gwaith hwn ac ystyriaethau blaenorol, mae'r Cynllun y Cyngor drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac mae'n cynnwys yr amcanion llesiant corfforaethol yn ogystal â'r amcanion strategol a ffrydiau gwaith cysylltiedig.

Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol presennol, dywedodd y Prif Weithredwr fod cyfrifoldeb ar y Cyngor i gynllunio dyfodol mwy llewyrchus ar gyfer trigolion Ynys Môn ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gyflwynir iddo. Mae Cynllun y Cyngor felly'n ceisio creu uchelgais wrth fod yn realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf, a hynny ar sail data gwirioneddol a chan ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Mae'n nodi cyfrifoldebau statudol y Cyngor yn ogystal â'r canlyniadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflawni ar ran pobl a chymunedau Ynys Môn er mwyn creu gwell dyfodol. Bydd dogfen gyflawni flynyddol yn cael ei chreu a fydd yn adrodd yn ffurfiol ar gynnydd, llwyddiant a chanlyniadau. Yn amodol ar gefnogaeth y Pwyllgor Gwaith a chymeradwyaeth y Cyngor Sir, bydd fersiwn derfynol o Gynllun y Cyngor yn cael ei gyhoeddi a bydd ei gynnwys yn cael ei ddefnyddio a'i hyrwyddo'n helaeth. Diolchodd y Prif Weithredwr i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun, yn ogystal â'r rhai hynny a gyfrannodd yn ystod y broses.

Wrth drafod y Cynllun, cododd y Pwyllgor gwestiynau am yr heriau sy'n gysylltiedig â'i wireddu'n llwyddiannus; i ba raddau y mae'n rhoi sylw i'r dyletswyddau statudol; rôl partneriaid ac aliniad y Cynllun â disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Holodd y Pwyllgor hefyd beth yw'r trefniadau ar gyfer adrodd a monitro cynnydd a sut mae ymateb y cyhoedd wedi dylanwadu ar y Cynllun. Mewn ymateb, dywedodd Swyddogion a'r Aelod Portffolio –

- Bod y Cynllun yn ffrwyth ymgynghori helaeth ac mae'n ceisio rhoi sylw i ddyletswyddau statudol y Cyngor a'r hyn y mae'n dymuno ei wneud; cwblhawyd ymarfer i adnabod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ar ddechrau'r gwaith datblygu i sicrhau fod y Cynllun yn rhoi sylw i'r holl ddyletswyddau statudol. Mae'r Cynllun, fodd bynnag, yn cael ei gyhoeddi mewn cyfnod o ansicrwydd ac efallai y bydd rhaid ei addasu i ymateb i heriau a/neu gyfleoedd wrth i gyfnod y Cynllun fynd rhagddo. Ystyrir bod y Cynllun yn ddogfen gadarn a ni ddylai'r cyfeiriad y mae'n ei osod i'r Cyngor yn ystod y bum mlynedd nesaf newid, hyd yn oes os bydd y manylion yn newid.
- Bod cydweithio a chydweithredu yn egwyddorion sylfaenol yng ngwaith y Cyngor ym mhob maes ac mae gan y Cyngor berthynas sydd wedi hen sefydlu gyda Llywodraeth Cymru, ei bartneriaid sector cyhoeddus, gan gynnwys Iechyd, er bod y pwysau ar y system gofal cymdeithasol yn heriol o safbwynt yr ymwneud ag Iechyd ar hyn o bryd; y

rheoleiddwyr, y sectorau gwirfoddol a chymunedol, y sector preifat a chynghorau tref a chymuned. Mae'r berthynas gyda chynrychiolwyr etholedig, ar lefel leol a chenedlaethol, yr un mor bwysig o ran dylanwadu ar y llywodraeth. Mae pob un ohonynt yn cyfrannu ac maent yn allweddol o ran cyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus.

- Dyma'r ail Gynllun y Cyngor fydd yn cael ei gyflawni o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Cynllun yn gosod tri amcan llesiant sy'n cael eu hategu gan amcanion strategol a maent, yn eu tro, yn alinio â nodau ac amcanion y Ddeddf. Mae gwasanaethau'r Cyngor hefyd yn gweithredu'n unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf ac maent yn llywio'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.
- Er bod ffactorau tu hwnt i reolaeth y Cyngor yn creu ansicrwydd ar hyn o bryd, mae rhai o'r prif heriau'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus yn ymwneud ag argaeledd adnoddau i ddarparu gwasanaethau a chynnal asedau, y gallu i gyflawni gofynion statudol a lefel y galw am wasanaethau'r Cyngor. Er bod gan y Cyngor weithlu medrus ac ymrwymedig, mae recriwtio a chadw staff mewn marchnad lafur a drawsnewidiwyd gan y pandemig yn parhau i fod yn her. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd barhau i foderneiddio ei wasanaethau a'i ddulliau gweithio, gan gynnwys symud i brosesau digidol a bod yn barod am yr heriau a ddaw yn sgil hynny.
- Bydd y gwaith o gyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn cael ei fonitro drwy gyhoeddi dogfen gyflawni flynyddol sy'n amlinellu'r hyn y bwriada'r Cyngor ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol a bydd yn rhoi dealltwriaeth i'r Cyngor ynghylch pa elfennau o'r Cynllun fydd yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn honno. Bydd y Byrddau Rhaglen yn edrych ar agweddau penodol o'r ddogfen Gyflawni a gallant wneud argymhellion fel y bo'n briodol. Mae'r adroddiad cerdyn sgorio chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn nodi unrhyw feysydd sy'n tanberfformio er mwyn cymryd camau i adfer y sefyllfa. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gwblhau hunanasesiad blynyddol sy'n tynnu gwahanol agweddau o'r fframwaith rheoli perfformiad ynghyd er mwyn darparu darlun corfforaethol cyffredinol o berfformiad blynyddol.
- O safbwynt ymgynghori ac ymgysylltu, lluniwyd y Cynllun ar sail y gwaith ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol erioed a gwblhawyd gan y Cyngor ac mae wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddo o'r hyn sy'n bwysig i drigolion Ynys Môn. Ceisiodd yr ymgysylltu gwreiddiol sefydlu beth oedd y meysydd blaenoriaeth yr oedd trigolion Ynys Môn yn dymuno'u gweld yng Nghynllun y Cyngor. Wedi hynny, datblygwyd y chwe amcan strategol drafft a chynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar yr amcanion hynny. Er bod y mwyafrif yn eu cymeradwyo, gwnaed rhai newidiadau mewn meysydd penodol wrth ddatblygu'r Cynllun mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd.

Nododd y Pwyllgor hefyd mai dim ond 9% oedd wedi ymateb i'r broses ymgynghori trwy gyfrwng y Gymraeg ac amlygodd yr Aelodau hynny fel mater y mae angen rhoi sylw iddo. Rhoddwyd sicrwydd y byddid yn rhoi sylw pellach i'r ystadegyn hwnnw.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, penderfynwyd argymell Cynllun y Cyngor 2023-28 i'r Pwyllgor Gwaith roi ystyriaeth bellach iddo.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at ddiwedd Ebrill, 2023 i'w ystyried a'i adolygu.

Gofynnwyd a fyddai'n bosib symud yr unig eitem a raglenwyd i'w hystyried yn y cyfarfod ym mis Ebrill i gyfarfod mis Mawrth a rhaglennu rhai o'r eitemau sy'n weddill ar gyfer y cyfarfod ym mis Ebrill.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y byddai'n codi'r mater gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac yn trafod â'r Cadeirydd.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaen raglen waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi cynnydd hyd yma wrth weithredu'r flaen raglen waith.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 14 Mawrth, 2023

DRAFT

**YN BRESENNOL:**
Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Douglas Fowlie, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Alwen Watkin, Arfon Wyn

**Aelodau Portffolio**

Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer), Gary Pritchard (Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg).

**WRTH LAW**:
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff Eiddo
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Pennaeth Proffesiwn (HR) a Thrawsnewid
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghorwyr Aled M. Jones, Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) Mr Dylan Williams (Prif Weithredwr), Mr Arwel Owen (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dim

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH3 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch3 2022/2023, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd adroddiad y cerdyn sgorio yn amlygu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion llesiant ar ddiwedd Chwarter 3, 2022/23.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd, gan fod 97% o Ddangosyddion Perfformiad y Cyngor yn perfformio'n dda ar y cyfan, dyma'r trydydd chwarter sydd wedi perfformio orau yn erbyn targed yr adran rheoli perfformiad ers creu adroddiad y cerdyn sgorio. Cyfeiriodd yn benodol at y perfformiad yn erbyn y tri amcan llesiant, gan ddweud mai dim ond tri o'r Dangosyddion Perfformiad sy'n tanberfformio am resymau sydd wedi'u cofnodi yn yr adroddiad, yn ogystal â'r mesurau gwella arfaethedig. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu nifer o enghreifftiau o berfformio da yn erbyn yr amcanion llesiant, gan gynnwys yn y Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Tai mewn perthynas â digartrefedd a nifer y cartrefi gwag sy'n cael eu defnyddio eto; rheoli gwastraff, ac yn y Gwasanaethau Dysgu mewn perthynas â chanran y myfyrwyr a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaenol, sy'n sefyll ar 100%. Er bod dangosydd perfformiad presenoldeb y Cyngor yn Ambr yn erbyn ei darged ar hyn o bryd, mae'r data'n cynnwys absenoldebau sy'n gysylltiedig â choronafeirws am y tro cyntaf, a hebddo, byddai'r perfformiad wedi bod yn Felyn. Gall Chwarter 3, sy'n ymestyn dros y misoedd sy'n arwain at y gaeaf, fod yn gyfnod heriol.

- Croesawodd y Pwyllgor y sefyllfa gadarnhaol ar gyfer Chwarter 3, ac roeddynt eisiau gwybod pa drefniadau oedd ar waith er mwyn cydnabod y llwyddiant. Cynghorwyd y Pwyllgor, yn ogystal â monitro tanberfformiad, mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol hefyd yn cydnabod y meysydd o berfformio da. Defnyddir Y Ddolen ar gyfer rhannu negeseuon mewnol gan gynnwys hyrwyddo arfer dda a chyfathrebu llwyddiannau, ac o ran adrodd i gynulleidfa ehangach, mae gan Aelodau Etholedig rôl i'w chwarae o ran hysbysebu cyflawniadau'r Cyngor a beth mae'n ei wneud yn dda er mwyn darparu sicrwydd i drigolion yr Ysgol fod gwelliannau'n cael eu cyflawni.
- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod rhai dangosyddion yn tan-berfformio ar ddiwedd Chwarter 3, ac wedi ceisio gwybodaeth bellach ynghylch y trefniadau monitro cynnydd ar gyfer y dangosyddion hynny, er mwyn bod ar y trywydd cywir o ran perfformio. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad cadarn sefydlog; mae hyn yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ac adroddiad cysylltiedig sy'n cynnwys cyfuniad o ddangosyddion a osodir yn lleol a chenedlaethol. Mae'r cerdyn sgorio yn dangos sut mae gweithgareddau dyddiol y Cyngor yn cael eu darparu, ac mae'n cynnig y deallusrwydd er mwyn galluogi agwedd ragweithiol i reoli perfformiad gan gynnwys lliniaru camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol er mwyn gwella. Yn ogystal, mae Penaethiaid Gwasanaeth yn monitro perfformiad o fewn eu gwasanaethau'n barhaus.
- Dywedodd y Pwyllgor fod perfformiad y Cyngor yn erbyn y dangosydd perfformiad presenoldeb yn y gwaith yn Ambr ar ddiwedd Chwarter 3, a gofynnwyd sut mae hyn yn cymharu â pherfformiad blaenorol y Cyngor. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y perfformiad ar gyfer y chwarter yn ddirywiad o gymharu â'r un cyfnod am y dair mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae data'r coronafeirws wedi'i gynnwys am y tro cyntaf ac mae wedi dylanwadu ar y canlyniad. Er bod y data wedi'i gynnwys, mae'n berfformiad gwell yn gyffredinol dros y cyfnod hwn o gymharu â 2021/22, a'r cyfnod cyn coronafeirws rhwng 2019/20. Mae chwarter 3 a 4 yn draddodiadol heriol o ran presenoldeb. Un ffactor y dylid ei ystyried yw rôl staff, yn enwedig os ydynt yn staff gofal rheng flaen sy'n dod i gyswllt â chleientiaid bregus. Hysbyswyd y Pwyllgor ymhellach o'r mesurau sydd ar waith gan y Cyngor er mwyn cefnogi presenoldeb a hyrwyddo llesiant staff gan gynnwys trefniadau gweithio'n hyblyg a hybrid ac atgyfeirio'n amserol at Iechyd Galwedigaethol pan fo'n briodol. Er bod perfformiad presenoldeb y Cyngor yn dda wrth ei meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill fel y profwyd gan ddata diweddar, ni ddylid bodloni arno o ran monitro perfformiad, ac mae wedi ymrwymo i wella perfformiad y dangosydd ymhellach. Mewn ymateb i gwestiwn pellach, darparodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid wybodaeth ychwanegol ynghylch trefniadau gweithio hybrid y Cyngor a sut mae'n nhw'n gweithredu ar waith.

- Trafodwyd y berthynas rhwng Cynllun y Cyngor 2023-2028 a’r Cerdyn Sgorio Corfforaethol, a gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau am y trefniadau sy’n sicrhau eu bod yn cyd-fynd. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod trafodaeth ynghylch adolygu’r dangosydd yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, yn berthnasol ac yn cysylltu ag amcanion Cynllun y Cyngor, ar waith a bod y broses yn agored ac y gwahoddir mewnbwn.
- Tynnodd y Pwyllgor sylw at batrwm o dan-berfformio mewn perthynas â dangosydd 09 -y canran o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen, a cheisiwyd sicrwydd fod camau’n cael eu cymryd i wella perfformiad y dangosydd hwn. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi cynyddu, ac er bod y Cyngor yn gallu bodloni’r amserlen ar gyfer ymateb cyn y pandemig, mae hynny wedi newid ers Covid. Cesglir data Rhyddid Gwybodaeth yn ganolog, ac fe’i gyhoeddir yn chwarterol ar wefan y Cyngor ar sail gwasanaeth fesul gwasanaeth, ac oherwydd y dirywiad mewn perfformio, mae adroddiad mwy manwl hefyd yn cael ei rannu’n chwarterol gyda’r Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Mae’r data’n dangos mai’r gwasanaethau sy’n profi’r anhawster mwyaf o ran ymateb o fewn yr amserlen yw’r Gwasanaethau Dysgu ac Adnoddau. O ran y cyntaf, deallir fod ffocws ar waith a wnaed gan Estyn yn Chwarter 1 wedi effeithio ar waith cysylltiedig â Rhyddid Gwybodaeth, ac felly efallai mai anomaledd a ellir ei adfer yw’r tanberfformiad, ac y gellir ei roi’n ôl ar ben ffordd. O ran y Gwasanaeth Adnoddau, mae’r gwaith o flaenoriaethu darpariaeth y cynlluniau/grantiau cymorth costau byw wedi creu ôl-groniad o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phosibl Ifanc wedi rhoi trefniadau ar waith i fynd i’r afael ag amseroedd ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y Gwasanaeth Dysgu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151 fod y Swyddog o fewn y gwasanaeth Adnoddau sy’n delio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi bod yn cynorthwyo i weinyddu cynlluniau a grantiau cymorth costau byw; mae’r gwaith hwn bellach yn dod i ben, sy’n golygu y gall y Swyddog ganolbwyntio ar waith cysylltiedig â Rhyddid Gwybodaeth er mwyn cael gwared ar yr ôl-groniad a rhoi’r patrwm gweithredu arferol ar waith. Cadarnhaodd nad oes angen capasiti ychwanegol ar gyfer y dasg.
- Wrth nodi fod 35% o’r dangosyddion perfformiad yn gweld dirywiad, cododd y Pwyllgor gwestiwn ynghylch tueddiadau monitro a thargedau. Aeth y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad ymlaen i gadarnhau fod y trywydd teithio dros amser cyn bwysiced â thargedau blwyddyn o ran rheoli perfformiad y Cyngor, ac eglurodd y broses y tu cefn i ddau ddangosydd penodol – (26) Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i’w hatal rhag dod yn ddigartref a (27) Canran yr aelwydydd (gyda phlant) y llwyddwyd i’w hatal rhag dod yn ddigartref, er mwyn dehongli’r pwynt.
- Nodwyd y dirywiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan Ap Môn a nifer y bobl a ymwelodd a wefan y Cyngor o gymharu â 2021/22. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Ap Môn bellach wedi’i ddisodli gan y system CRM, a bod nifer y bobl sy’n ymweld â gwefan y Cyngor yn debygol o newid yn dibynnu ar gyfnodau gwahanol y flwyddyn, ac mae’n bosibl fod y cynnydd mewn ymwelwyr yn ystod y pandemig yn 2020/21 a 2021/22 wedi newid y data ar y pryd.

**Ar ôl sgriwtineiddio’r data a nodi’r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn y cyfarfod, penderfynwyd–**

- **Nodi’r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2022/23.**
- **Nodi’r meysydd gwella ynghyd â’r meysydd mae’r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau pellach ar gyfer y dyfodol a**

DRAFT

- **Nodi'r mesurau lliniarol a amlinellwyd o fewn yr adroddiad ac argymell hyn i'r Pwyllgor Gwaith.**

### 3 CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2023-2053

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, sy'n ymgorffori Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023-2053, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd y Cynllun Busnes gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai. Nodwyd ei fod yn adlewyrchu gweledigaeth y Cyngor sef "fod gan bawb yr hawl alw rhywle 'n gartref." Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn ariannu holl weithdrefnau stoc tai y Cyngor. Elfen bwysig o'r Cyfrif yw'r ymrwymiad i ymestyn stoc dai y Cyngor er mwyn bodloni anghenion tai amrywiol ledled yr Ynys, ac roedd yr Aelod Portffolio yn falch o gefnogi hyn.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod rhaid i'r Cyngor gyflwyno ei gais am Lwfans Atgyweiriadau Mawr (LAM) gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â Chynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 30 mlynedd i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth er mwyn sicrhau'r LAM ar gyfer 2023/24, sydd werth £2.688m. Mae'r cynllun yn ffurfio'r adnoddau sylfaenol ar gyfer cynllunio ariannol a darparu a rheoli stoc tai'r Cyngor, ac mae'n egluro sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei stoc yn bodloni Gofynion Safonau Ansawdd Tai Cymru; sut mae'n bwriadu cynnal a gweithio tuag at y safonau newydd y cytunir arnynt yn fuan gan Lywodraeth Cymru a'r buddsoddiad sydd ei angen i ariannu rhaglen datblygu tai cyngor newydd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau gyda'i waith o ddatgarboneiddio a chynnal effeithlonrwydd ynni gyda £1m wedi'i glustnodi er mwyn targedu'r gwaith o osod 250 systemau Solar OV pellach. Yn ogystal â hyn, mae £8.749m wedi'i neilltuo ar gyfer 2023/24 er mwyn datblygu rhaglen o dai cyngor newydd a phrynu tai cyngor blaenorol ar yr Ynys. Mae'r Cynllun Busnes yn bwriadu cynnal rhaglen ddatblygu 45 uned yn 2023/24 ac yn ystod bywyd y Cynllun. Mae'r Cynllun Busnes wedi bod yn destun prawf straen er mwyn bod yn atebol o risgiau unigol a chyfunol, ac mae'n parhau'n hyfyw dros 30 mlynedd y cynllun.

Bu i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai a chafwyd trafodaeth am y materion canlynol –

- Sut fydd y strategaeth arfaethedig yn galluogi'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau strategol o fewn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28. Cynghorwyd y Pwyllgor mai'r weledigaeth sydd wrth wraidd y Cynllun Busnes Refeniw Tai yw sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle 'n gartref, sy'n cyd-fynd ag un o amcanion strategol Cynllun y Cyngor. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rhaid sicrhau bod y cartrefi cywir yn cael eu datblygu yn y lleoedd cywir a'r niferoedd cywir, a chredir bod y strategaeth yn galluogi hynny. Mewn ymateb i'r cwestiynau ynghylch prynu tai cyngor blaenorol sydd wedi cael eu prynu dan yr hawl i brynu, ac sydd bellach yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y Cyngor yn ceisio prynu o leiaf 15 tŷ cyngor blaenorol bob blwyddyn, a bydd yn prynu mwy na'r nifer hwnnw os bydd cyfleoedd ac adnoddau'n caniatáu hynny. Fodd bynnag, er na all y Cyngor brynu eiddo preifat at ddibenion tai cyngor gan na fyddent yn bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru, mae ganddo gynlluniau ar waith i helpu pobl leol brynu eiddo ar y farchnad agored.
- • Fforddiadwyedd y rhaglen ehangu tai cyngor arfaethedig yn y sefyllfa economaidd bresennol. Cynghorwyd y Pwyllgor fod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei gefnogi gan fodel ariannol 30 mlynedd fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n dangos cryfder y cynllun. Maent yn seiliedig ar ragdybiaethau a pharamedrau allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn rhagweld yr adnoddau fydd ar gael, a'r rhai sydd eu hangen, er mwyn cynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru, y capasiti ar gyfer y rhaglen adeiladu newydd a rhoi sicrwydd ar addasrwydd tymor hir a

DRAFT

sefydlogrwydd ariannol y Cyfrif Refeniw Tai. Os bydd chwyddiant yn parhau'n uchel, neu'n cynyddu, gan effeithio ar gostau, efallai y bydd angen ail-ystyried lefel yr ehangiad. Er yr asesir pob datblygiad tai unigol o ran hyfywedd yn unol â model ariannol cytunedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno pe byddai angen am ddatblygiad, gall fynd yn ei flaen ar y sail honno yn hytrach na sail costau. Ar ôl bodloni'r Safonau Ansawdd Tai Cymru yn 2012, mae gan y Cyngor y gallu i ymgymryd â datblygiad tai fydd yn cael ei ariannu'n uniongyrchol drwy falans y Cyfrif Refeniw Tai, ac yna drwy fenthyca'r gost fydd yn cael ei gydweddu gan incwm a gynhyrchir drwy'r Cyfrif. Fodd bynnag, rhaid ystyried ffactorau eraill megis argaeledd tir a chontractwyr.

- I ba raddau mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn ceisio ymdrin â chyflenwi llety ar gyfer oedolion a theuluoedd bregus. Dywedwyd wrth y Pwyllgor ei bod hi'n bwysig fod anghenion y bobl ar y Gofrestr Tai Cymdeithasol yn cael eu bodloni. Ar hyn o bryd mae 908 o ymgeiswyr ar y gofrestr, ac mae'r rhan fwyaf angen eiddo anghenion sylfaenol 1 a 2 ystafell wely ac eiddo i bobl hŷn. Mae'n bwysig fod darpariaeth tai fforddiadwy'n cynnwys sawl math gwahanol o dendrau a llety er mwyn bodloni anghenion gwahanol grwpiau gwahanol.
- Problemau capasiti o fewn y Gwasanaeth Tai ac ymhlith datblygwyr a chontractwyr y sector preifat sy'n gweithio gyfochr â'r Cyngor i adeiladu tai newydd ac a oes unrhyw risgiau wedi'u hadnabod a mesurau lliniaru ar waith. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gellir datblygu capasiti/gweithlu mewnol a gellir adolygu'r fframwaith caffael er mwyn galluogi/hwyluso datblygwyr y sector preifat i weithio gyda'r Cyngor i adeiladau tai newydd. Er y cydnabyddir fod capasiti yn risg, ystyrir bod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, fel amcan i ddarparu 45 o unedau bob blwyddyn, yn cyflawni cydbwysedd priodol rhwng uchelgais a'r hyn sy'n gyraeddadwy.
- Y cyflenwad o dai cymdeithasol sydd ei angen er mwyn bodloni'r galw ar y gofrestr dai ac argaeledd cefnogaeth ar gyfer y blaendaliadau tro cyntaf a/neu gyfraniadau at flaendal rhent. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer y bobl ddigartref sy'n cyflwyno eu hunain i'r Gwasanaeth Tai yn annisgwyl, gan gynnwys 85 aelwyd sydd mewn llety brys neu dros dro, a bod y rhestr aros am dai cymdeithasol yn sylweddol. Er bod y Gwasanaeth Tai a Chymdeithasau Tai yn gosod dros 350 o dai bob blwyddyn, mae'r rhestr aros yn parhau i dyfu, gan ei gwneud hi'n anodd mesur y cyflenwad gofynnol. Fodd bynnag, mae ffigyrau'n dangos cynnydd yn yr angen am dai fforddiadwy boed hynny drwy rent sylfaenol, rhent canolradd neu gymorth i brynu. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Tai fod cynlluniau ar gael er mwyn cynnig cymorth gyda blaendaliadau yn ddibynnol ar angen ac amgylchiadau unigol, ac yn y cyd-destun hwn, eglurodd y gwahaniaeth rhwng tai rhent sylfaenol a rhent canolradd.
- Yr angen i hysbysebu cynlluniau cymorth a chefnogaeth y Gwasanaeth Tai a gweithgareddau a gynigir gan y Gwasanaeth sy'n ymwneud a thlodi. Cynghorwyd y Pwyllgor y gellir ymgorffori cyhoeddusrwydd o'r fath yn yr Adroddiad Blynyddol ar ddarparu'r Cynllun Busnes sy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod fod y gefnogaeth mae'n ei ddarparu i helpu pobl gael eu cartrefi ei hunain angen ei farchnata'n fwy eang, ac ymdrinnir â hyn fel rhan o Gynllun Darparu'r Gwasanaeth a'r rhaglen waith ar gyfer chwarter cyntaf 2023/24.

**Ar ôl sgriwtineiddio'r Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai, nodi'r wybodaeth ychwanegol a darparu'r sicrwydd yn y cyfarfod, penderfynwyd argymell Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023-2053 i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 MONITRO CYNNYDD: ADRODDIAD AR GYNNYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n amlinellu'r cynnydd a datblygiadau diweddaraf o fewn y Gwasanaethau Oedolion, Plant a Theuluoedd, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Bu i'r Cynghorwyr Alun Roberts a Gary Pritchard, Aelodau Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant, ddarparu crynodeb o uchafbwyntiau'r cynnydd o fewn y ddau wasanaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad, a chyfeiriwyd yn benodol at Adroddiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru am Wasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau o archwiliad yr Arolygiaeth ar Wasanaethau Oedolion, Plant a Theuluoedd Ynys Môn a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2022. Roedd yr adroddiad yn myfyrio'n gadarnhaol ar sawl maes, ac yn adnabod nifer o gryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella. Mae gweithgor mewnol wedi'i sefydlu er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hynny. Mae heriau recriwtio yn parhau i fodoli, ac maent yn heriau a welir yn genedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â staff cartrefi gofal preswyl a gweithwyr gofal cartref. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio'n agos gyda Choleg Menai a chydweithwyr o fewn swyddogaeth AD yr Awdurdod i ddenu pobl i'r proffesiwn gofal cymdeithasol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn.

Darparodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wybodaeth ynghylch cyd-destun yr adroddiad ar gynnydd sydd wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar sail chwarterol i ddechrau ac yna, bob chwe mis, a dywedodd mai'r bwriad oedd rhoi sicrwydd ynghylch cynnydd ym mherfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn dilyn adroddiad beirniadol gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2016, a pherfformiad y Gwasanaethau Oedolion yn fwy diweddar. Mae'r sicrwydd a ddarparwyd drwy'r adroddiadau cynnydd hynny, yn ogystal ag adroddiad blynyddol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynnydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, wedi'i gefnogi ymhellach gan adroddiad diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru sydd hefyd yn canmol y Gwasanaethau Oedolion. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion bellach yn cynhyrchu Cynlluniau Datblygu Gwasanaeth newydd, gan ddefnyddio ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed, a byddant yn cael eu cyflwyno i Banel Sgriwtini'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cael eu sgriwtinieddio.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor drafod y canlynol-

- Y trefniadau ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn meysydd sydd angen sylw. Cynghorwyd y Pwyllgor o'r amryw ffyrdd y mae cynnydd yn cael ei olrhain ac mae sicrwydd yn cael ei ddarparu, gan gynnwys y berthynas agos a chyson sydd gan y Gwasanaeth gyda rheoleiddwyr; drwy brosesau corfforaethol a democrataidd gan gynnwys Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith, drwy'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol sy'n darparu lefel o oruchwyliaeth, a drwy gyfarfod, adolygiadau archwilio a monitro perfformiad rheolaidd yn fewnol o fewn y gwasanaeth ei hun. Mae'r Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid yn y maes Iechyd a meysydd eraill i adnabod heriau.
- Y ffrydiau gwaith blaenoriaeth ar gyfer Panel Sgriwtini'r Gwasanaethu Cymdeithasol dros y cyfnod nesaf. Cynghorwyd y Pwyllgor y bydd y rhain yn cael eu gyrru gan adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â'r meysydd sydd wedi'u hadnabod ar gyfer ffocws parhaus, gan y Gynlluniau Datblygu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaeth Oedolion.
- Y bwriad i beidio ag adrodd ar gynnydd gwelliannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ac yn hytrach i'r Pwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn parhau i adroddiad i'r Pwyllgor hwn. Mynegodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â gallu'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol i herio a monitro cynnydd a datblygiad, ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon â'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod cyflymdra'r cynnydd a gwelliannau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn briodol, ac**
- **I gefnogi'r bwriad i beidio ag adrodd ar gynnydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ond i dderbyn adroddiadau yn y dyfodol gan Banel Sgriwtini y Gwasanaethau Cymdeithasol.**

**5 Y BLAEN RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn ymgorffori'r Blaen Rhaglen Waith hyd at Ebrill 2023, am ystyriaeth.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini fod y newidiadau diweddar i'r Pwyllgor Gwaith wedi arwain at rôl wag o fewn y Pwyllgor a Phanel Sgriwtini'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Oherwydd hyn, bydd busnes cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill 2023, hefyd yn cynnwys eitem ar enwebu aelodau i'r Pwyllgor er mwyn gwasanaethu'r Panel.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r Blaen Rhaglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yn hyn o ran gweithredu'r Blaen Rhaglen Waith.**

**Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 19 Ebrill 2023 |
| **Pwnc:** | Y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol 2023-2028 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ystyried y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol 2023-2028 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Robert Llywelyn Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard – Gwasanaethau Plant a theuluoedd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Saul Ainsworth ac Emma Edwards<br>Rheolwr Busnes, Gwasanaethau Oedolion<br>01248 751887<br>emmaedwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Perthnasol i bob aelod |

| 1 – Argymhelliad/ion |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol…<br>• gadarnhau ei fod yn fodlon â chynnwys y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol 2023-2028, a nodi unrhyw sylwadau<br>• argymell derbyn a chymeradwyo'r Strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith. |

| 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall |
|---|
| Cyswllt â Chynllun Cyngor YM 2017-22 – Amcanion 1,2, a 3. |

| 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]** |

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut mae'r Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ymadawyr Gofal yn cysylltu â Chynllun y Cyngor: 2023/2028?

2. Beth yw oblygiadau rhoi'r Strategaeth arfaethedig ar waith o safbwynt adnoddau a pha mor fforddiadwy yw hyn yn yr hinsawdd bresennol?

3. Pa risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod a pha fesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig i leihau'r effaith ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal?

4. Pa effaith fydd y strategaeth hon yn ei chael ar bobl Ynys Môn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae copi o'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol 2023-2028 ynghlwm mewn dogfen ar wahân.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effaith bosib ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Cwblheir Asesiad o' Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob prosiect ffurfiol, yn unol â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru.
Ddim yn berthnasol ar gyfer yr adroddiad hwn.

**6.2 Yr effaith bosib ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Mae'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, i gefnogi'r plant a phobl ifanc yn ein cymunedau.

**6.3 Yr effaith bosib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae'r holl wasanaethau sy'n cael ein cynnig gennym ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Amherthnasol.

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Dim |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey



# STRATEGAETH RHIANTU CORFFORAETHOL 2023-28

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

# Rhagair

**Cynghorydd**
**Gary Pritchard**
Aelod Portffolio – Gwasanaethau
Plant (Gwasanaethau
Cymdeithasol) ac Ieuenctid

Tudalen 23

# Pam bod angen Strategaeth Rhiantu Corfforaethol arnom?

Mae rhiantu corfforaethol yn cyfeirio at y cydgyfrifoldeb ar draws y Cyngor i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal gennym ni, neu sy’n gadael gofal, yn cael eu cefnogi i ffynnu; nhw yw ‘ein plant’.

Mae rôl y Cyngor o ran gofalu am y plant a phobl ifanc yn un o’r pethau pwysicaf rydyn ni’n ei wneud. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb unigryw i’r plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal gennym ni, yn ogystal â’r rheiny sy’n gadael ein gofal.

Dylai rhiant corfforaethol da feddu ar yr un dyheadau ar gyfer plentyn/unigolyn ifanc sy’n derbyn gofal ag y byddai rhiant ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae hyn yn cynnwys darparu’r sefydlogrwydd a’r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ddatblygu; a’u helpu nhw i osod targedau uchelgeisiol eu hunain. Mae’n golygu dathlu eu llwyddiant a chydnabod y byddant yn gwneud camgymeriadau ar brydiau ac angen help i gydio yn yr awenau eto. Mae hefyd yn golygu eu cefnogi nhw i feithrin y sgiliau a’r hyder i fyw’n annibynnol, a’u hatgoffa fod rhywun ar gael bob amser pan fydd pethau’n mynd o chwith.

Mae ei strategaeth yn nodi sut rydym yn bwriadu herio ein hunain fel rhieni corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf. Mae’n cynnig y cyd-destun cyfreithiol a lleol rydyn ni’n gweithredu oddi mewn iddo, ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal, yn ogystal â’r rheiny sy’n gadael ein gofal a sut rydym yn bwriadu cyflawni’r blaenoriaethau sydd wedi’u gosod mewn deddfwriaeth.

# I bwy mae'r strategaeth hon?

**Cyfradd Gofal:**
**95/10000**

**150 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**

Tudalen 25

63 sy'n gadael gofal

10 Ceiswyr Lloches ar eu pen eu hunain

**65% o blant a phobl ifanc yn byw gyda gofalwyr maeth**

75% o blant a phobl ifanc yn byw ar Ynys Môn

Mae strategaeth ar gyfer yr holl aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor, ar ran y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, yn ogystal â'r rheiny sy'n gadael ei gofal

**Canlyniadau TGAU 2022-23 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal:**

5 A-C: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg
18%

5 A-G: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg
64%

1 A-G: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg
18%

# Fframwaith Deddfwriaethol



Rydym yn ceisio cefnogi y rhan fwyaf o'n plant a phobl ifanc o fewn eu teuluoedd a chymunedau eu hunain; fodd bynnag, nid yw hyn yn bosib i lond llaw o'r unigolion hyn, ac maent angen trefniadau gofal amgen (un ai tymor byr neu hir).

Mae plant a phobl ifanc yn ein gofal ni un ai drwy orchymyn llys neu drwy gytundeb â'u rhiant (rhieni) neu warcheidwad (gwarcheidwaid). Efallai y bydd plentyn neu unigolyn ifanc yn dod i'n gofal o ganlyniad i anawsterau tymor byr neu hir a brofir gan eu rhieni, o ganlyniad i gam-drin, esgeulustod neu amrywiaeth o anawsterau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ein plant wedi'i gefnogi gan nifer o ddeddfwriaeth allweddol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant (2000)
- Deddf Ymadael â Gofal (2000)
- Deddf Plant (2004)
- Deddf Plant a Theuluoedd (2014)

# Ein Gweledigaeth. Ein Hymrwymiad.

## Ein Gweledigaeth

Mae ‘Ein Plant’ yn cyfeirio at y plant a phobl ifanc ar Ynys Môn sy’n derbyn gofal neu sy’n gadael gofal. Mae hyn, yn ei hanfod, yn siapio ein gweledigaeth a dyheadau ar eu cyfer. Yn y pen draw, rydym eisiau i bob plentyn dderbyn y gefnogaeth i ddatblygu yn oedolion sy’n cyfrannu at egwyddorion a gwerthoedd cadarnhaol, a’u harddangos.



## Ein Hymrwymiad

Byddwn yn rhiant corfforaethol effeithiol a dibynadwy ar gyfer unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc sy’n derbyn gofal gennym, waeth beth yw eu hoed, rhyw, rhywedd, ethnigrwydd, ffydd neu anabledd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cyngor a chefnogaeth o ansawdd pan fyddant yn gadael gofal.

Bydd y cynnig cefnogaeth i’r rheiny sy’n gadael gofal yn dryloyw ac yn cael ei rannu a phob unigolyn ifanc cyn iddynt adael gofal.

Byddwn yn gwrando ar ein plant a phobl ifanc er mwyn eu helpu nhw i gyflawni o fewn eu bywydau, yn yr un modd ac mae gwasanaethau’n cael eu siapio drwy fanteisio ar ein hadnoddau.

## Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?

Bydd y Panel Rhiantu Corfforaethol yn cwrdd bob chwarter er mwyn:

- ✓ Herio a sgriwtineiddio er mwyn parhau i wella safonau i helpu ein plant a phobl ifanc gyflawni hyd eithaf eu gallu
- ✓ Sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswyddau a chyfrifoldebau strategol i safon dda
- ✓ Sicrhau ein bod yn gweithio’n effeithiol mewn tîm er mwyn bodloni anghenion ein plant a phobl ifanc
- ✓ Mynnu safbwyntiau ein plant a phobl ifanc er mwyn siapio datblygiadau gwasanaethau’n effeithiol.

# Pyramid Maslow: Hierarchaeth Anghenion






Mae ‘hierarchaeth anghenion’ Maslow yn dangos model pum haen o anghenion dynol. Rhaid bodloni’r anghenion sydd ar waelod yr hierarchaeth cyn gall pobl fodloni’r anghenion sydd wedi’u hadnabod yn yr haenau uwch. Fe rhieni corfforaethol, rydym eisiau darparu’r sylfeini er mwyn galluogi ein plant a phobl ifanc i fodloni eu hanghenion sylfaenol yn annibynnol wrth ddod yn oedolion, ac yn y pen draw, bydd yn eu galluogi nhw i daro sylw i’r anghenion uwch.

# Fel Rhieni Corfforaethol, byddwn yn:

1. Diogelu ein plant a phobl ifanc rhag risg a bod yn fregus
2. Deall ein plant a phobl ifanc a'u hanghenion, doniau a dyheadau a hyrwyddo eu diddordebau
3. Bod â dyheadau uchel ar gyfer eu presennol a'u dyfodol, a disgwyl y gorau ohonynt ac ar eu cyfer
4. Dangos yn eu llwyddiant/heriau a dathlu eu gweithdai
5. Gwrando ar eu barn a sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn dylanwadu ar arferion, gwasanaethau a newidiadau polisi
6. Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ym mhob agwedd
7. Cefnogi cyflawniad academaidd a galwedigaethol uchel. Cefnogi eu cyfraniadau menter a chreadigol
8. Cefnogi eu hiechyd, eu llesiant emosiynol a'u gwytnwch drwy fanteisio ar y gwasanaethau cywir ar yr amser cywir
9. Eu cefnogi i fod yn ddinasyddion moesegol wybodus
10. Cefnogi eu cyfnod pontio i fyd oedolion drwy eu paratoi i ddod yn ddinasyddion cyfrifol
11. Dysgu o ganmoliaeth a chwynion gan blant a phobl ifanc

# Blaenoriaeth Strategol: Her Aelodau Etholedig

**Pam ei fod yn bwysig?**

Er mwyn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc, yn ogystal â'r rhai sy'n gadael ein gofal, mae'n bwysig bod gan aelodau etholedig a swyddogion ar draws y Cyngor ddealltwriaeth o'r materion y mae ein pobl ifanc yn eu hwynebu wrth iddynt dyfu, datblygu a pharatoi/dod i fyd oedolion.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Byddwn yn sicrhau bod gan aelodau etholedig y wybodaeth a'r sgiliau allweddol i herio a chraffu ar allu'r gwasanaeth i fodloni anghenion ein plant a'n pobl ifanc ar y cyd ac yn effeithiol.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**

**Byddwn yn:**

- ✓ Trefnu gweithdy ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r strategaeth hon yng nghyd-destun y math o faterion mae ein plant ifanc yn eu hwynebu
- ✓ Sicrhau bod y Panel Rhiantu Corfforaethol yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn herio a chraffu ar ddata ac adroddiadau a gyflwynir gan swyddogion ar draws y bartneriaeth
- ✓ Sicrhau bod aelodau'r panel yn cael cyfle i gwrdd â rhai o'n plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth uniongyrchol o'u profiadau

# Blaenoriaeth Strategol: Llety

## Pam ei fod yn bwysig?

Mae'n hanfodol bod gan y gwasanaeth ddewis o leoliadau er mwyn cwrdd â'r plant a phobl ifanc, a rhaid i'r lleoliadau gyd-fynd â'r anghenion a nodwyd. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o sefydlogrwydd i'n plant a phobl ifanc, sef y sylfaen ar gyfer cynnig gwell cyfleoedd mewn bywyd.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Sicrhau bod gennym ddigon o leoliadau addas er mwyn darparu ar gyfer y plant a'r bobl ifanc yr ydym yn gofalu amdanynt.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

**Byddwn yn:**

- ✓ Parhau i weithio gyda Maethu Cymru yn genedlaethol ac yn rhanbarthol i gynyddu nifer y gofalwyr maeth i fodloni anghenion amrywiol ein plant
- ✓ Parhau i adeiladu ar raglen cartrefi grŵp bach lwyddiannus Cartref Clyd i alluogi mwy o'n pobl ifanc, y mae gofal preswyl yn bodloni eu hanghenion orau, i barhau i fyw ar yr ynys yn eu cymunedau
- ✓ Parhau i gynnig buddion gwell i ddarpar ofalwyr maeth er mwyn annog maethu i'r Cyngor
- ✓ Parhau i fanteisio ar dechnolegau newydd i gefnogi ein gofalwyr maeth a chartrefi grwpiau bach.

# Blaenoriaeth Strategol: Llety i'r Rhai sy'n Gadael Gofal

**Pam ei fod yn bwysig?**

Mae'n hanfodol bod gan y gwasanaeth ddewis o leoliadau er mwyn cwrdd â'r plant a phobl ifanc, a rhaid i'r lleoliadau gyd-fynd â'r  anghenion a nodwyd. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o sefydlogrwydd i'n plant a phobl ifanc, sef y sylfaen ar gyfer cynnig gwell cyfleoedd mewn bywyd.

Tudalen 32

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Sicrhau bod gennym ddigon o leoliadau addas a threfniadau byw ar gyfer ein pobl ifanc sy'n gadael gofal.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**
**Byddwn yn:**

- ✓ Cyfrannu at y broses dendro Cefnogi Pobl mewn perthynas â llety ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, gan sicrhau bod lleisiau ein pobl ifanc yn cael eu clywed
- ✓ Parhau i ehangu a datblygu 'Pan Fydda i'n Barod' i alluogi mwy o'n pobl ifanc i aros yn eu lleoliadau maeth ôl-18, os mai dyna yw eu dymuniad
- ✓ Datblygu cyfarfodydd partneriaeth 'llwybr' rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion, Plant a Theuluoedd) a'r Gwasanaethau Darparu Tai i sicrhau bod anghenion llety pobl ifanc unigol yn cael eu bodloni, gyda'r bwriad o leihau digartrefedd

# Blaenoriaeth Strategol: Iechyd Emosiynol a Gwytnwch

**Pam ei fod yn bwysig?**

Mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn gwasanaethau iechyd meddwl o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym am fynd i'r afael â'r duedd hon ar gyfer ein plant.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Byddwn yn hybu iechyd emosiynol a gwytnwch ein plant er mwyn eu datblygu'n emosiynol wrth iddynt symud i fyd oedolion.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**

**Byddwn yn:**

- ✓ Parhau ar ein taith i ddod yn ynys sy'n wybodus o drawma, gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am ein plant (gofalwyr maeth/gweithwyr preswyl), y rhai sy'n addysgu ein plant a'r rhai sy'n cefnogi ein plant.
- ✓ Parhau â'n pecyn hyfforddi ar gyfer gweithlu'r ynys fel bod y Dull Adfer Trawma wedi'i wreiddio, gan alluogi gweithwyr proffesiynol/gofalwyr i fod yn wybodus ac yn fedrus.
- ✓ Adolygu effaith y Strategaeth Adfer Trawma trwy gyfrwng y dangosyddion perfformiad allweddol a sefydlwyd yn y strategaeth honno
- ✓ Cydleoli ymarferwyr CAMHS gyda staff Gofal Cymdeithasol i hwyluso a gwella cydweithio effeithiol ar gyfer plant unigol

# Strategic Priority: Education, Employment & Training

**Pam ei fod yn bwysig?**

Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn ffigurau diweithdra, sy'n aml yn cyfrannu at or-gynrychiolaeth ar draws ystod o fynegeion tlodi. Rydym am roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd i'n pobl ifanc a fydd yn eu galluogi i gael gwaith, datblygu eu hannibyniaeth a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas a'u cymunedau lleol.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Cynyddu nifer y rhai sy'n gadael gofal mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

**Sut ydyn ni am wneud hyn?**

**Byddwn yn:**

- ✓ Mesur effaith y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol (BIP) ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, sy'n rhoi incwm gwarantedig sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n cyrraedd deunaw oed rhwng Gorffennaf 2022 a Mehefin 2023.
- ✓ Gwerthuso effaith y diploma achrededig sgiliau byw'n annibynnol, sydd ar gael i ddeg o bobl sy'n gadael gofal yn ystod 2023-24
- ✓ Gwerthuso effaith y Panel Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 16+, sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

# Cylch Gorchwyl Panel Rhiantu Corfforaethol Cyngor Môn

**Diben y Panel Rhiantu Corfforaethol**

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn ogystal â phobl ifanc sy'n gadael gofal yn cyfeirio at 'ein plant a phobl ifanc'. Fel Cyngor, rydym yn uchelgeisiol iawn o ran gweld y plant/unigolion ifanc rydyn ni'n gyfrifol amdanynt yn llwyddo hyd eithaf eu gallu.

Mae gan Gyngor Môn flaenoriaeth allweddol i fod y sefydliad lle all ein plant a phobl ifanc ffynnu. A ninnau'n rhieni corfforaethol, yn aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor, sy'n cael ein cefnogi gan gydweithwyr o fewn asiantaethau statudol eraill, mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau ein plant a phobl ifanc mewn gofal, ac wrth iddynt adael gofal, yn cael eu clywed; bod eu hanghenion yn cael eu bodloni a'u bod nhw'n cael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag unrhyw blentyn arall.

Er mwyn cyflawni hyn:

- Bydd yr aelodau etholedig yn hyrwyddo anghenion ein plant a phobl ifanc
- Bydd gan bartneriaid ddisgwyliadau uchel ar gyfer ein plant a phosibl ifanc
- Bydd Panel Rhiantu Corfforaethol a Phartneriaeth Diogelu Gogledd Cymru yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad gwasanaethau sy'n cael eu harchwilio o ran effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, bydd y panel yn ystyried ac yn hyrwyddo'r canlynol ar gyfer y plant a phobl ifanc mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt:

- Llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol
- Diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant ac adloniant
- Perthnasau teuluol a phersonol
- Cyfraniad I'r gymuned leol
- Sicrhau hawliau a hawliadau, yn cynnwys peidio â byw mewn tlodi
- Byw mewn llety addas.

Y cyd-destun deddfwriaethol yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n gosod dyletswydd ar gynghorau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant pob plentyn mae'n gofalu amdano yn ogystal â phob un sy'n gadael gofal.

**Cyfrifoldebau'r Panel Rhiantu Corfforaethol**

1. Sicrhau bod hyrwyddwyr plant a phobl ifanc y Cyngor a hyrwyddwyr plant a phobl ifanc mewn gofal yn parhau i eirioli ar ran ein plant a phobl ifanc.

2. Derbyn a sgriwtineiddio adroddiadau mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer ein plant a phobl ifanc.

3. Monitro a herio gwelliannau gwasanaethau'n fanwl ac effaith ymarfer gwaith cymdeithasol ar wella canlyniadau ar gyfer ein plant a phobl ifanc.

4. Monitro a herio effeithiolrwydd gwasanaethau o ran gwella cyrhaeddiad addysgiadol ein plant a phobl ifanc.

5. Monitro a herio effeithiolrwydd gwasanaethau sy'n gwella iechyd corfforol ac emosiynol ein plant a phobl ifanc.

6. Sicrhau y cynigir cyfleoedd hamdden a diwylliannol ar gyfer ein plant a phobl ifanc ac y manteisir ar y cyfleoedd hynny.

7. Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth aelodau o'n plant a phobl ifanc, eu hanghenion a phrofiadau o fewn y Cyngor ac ar draws y gymuned ehangach.

8. Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig yn gallu cyflawni eu rolau fel hyrwyddwyr ac eiriolwyr rhiantu corfforaethol ar gyfer ein plant a phobl ifanc drwy gynnig hyfforddiant a chyfleoedd datblygu priodol.

9. Bod yn uchelgeisiol o ran cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer ein plant a phobl ifanc.

10. Sicrhau bod llais a phrofiad y plentyn yn ganolog i waith y Cyngor cyfan, ac i ystyried y ffyrdd creadigol a all y Panel Rhiantu Corfforaethol glywed ac ymateb i safbwyntiau ein plant a phobl ifanc.

11. Datblygu arbenigedd mewn materion sy'n effeithio ar ein plant a phobl ifanc.

12. Cyflwyno trywydd y strategaeth rhyngasiantaethol er mwyn cyflawni canlyniadau da ar gyfer ein plant a phobl ifanc.

13. Cyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc 'sy'n Derbyn Gofal' a'r rhai sy'n Gadael Gofal; i herio a bod yn atebol am ei ddarparu.

14. Darparu 'addewid' y Cyngor i'n plant a phobl ifanc.

15. Adrodd i'r Cyngor yn flynyddol gan amlinellu'r gwaith a wneir yn ystod y flwyddyn ac adnabod rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn olynol.

**Aelodaeth a Llywodraethiant y Panel Rhiantu Corfforaethol**

Cynhelir cyfarfodydd ar sail chwarterol gan ddechrau gyda chyfarfod i sefydlu'r agenda.

**Aelodau**

Prif Weithredwr (Cadeirydd)

**Y Pwyllgor Gwaith**

Aelodau Portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus
Aelod Portffolio Addysg
Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau

**Pwyllgorau Sgriwtini**

Aelod Etholedig Sgriwtini Corfforaethol

Aelod Etholedig ar gyfer Adfywio a Phartneriaeth
Aelod o'r Foster Carers' Association
Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Aelod o Voices from Care Cymru

**Swyddogion**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgu
Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys
Swyddogion Arolygu Annibynnol
Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiant
Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
Swyddog Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod y panel yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan swyddogion er mwyn arwain y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol.

Y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Ymyrraeth Ddwys fydd y prif swyddog ar gyfer y panel, a bydd yn cael ei gefnogi gan arweinwyr y gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, eiriolaeth mabwysiadu a maethu.

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn darparu'r trefniadau gweinyddol ac arweiniad sefydliadol i'r panel. Bydd yr agenda ac adroddiadau'n cael eu dosbarthu wythnos cyn y cyfarfod

3

# Siarter: Cefnogi Rhieni Mewn Gofal ac Wrth ei Adael

A ninnau'n rhieni, rydym wedi ymrwymo i gefnogi mamau a thadau sydd mewn gofal, neu sy'n gymwys i adael gwasanaethau gofal.

Datblygwyd y siarter hon gyda rhieni sydd â phrofiad o ofal a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio i elusennau ac awdurdodau lleol. Mae'r siarter yn nodi beth fyddwn ni'n ei wneud i'ch helpu chi baratoi ar gyfer dod yn rhiant, sut fyddwn ni'n eich cefnogi chi i ddod yn rhiant a beth fyddwn ni'n ei wneud i herio stigma ac anfantais.

**Cyn dod yn rhiant**

Byddwn yn trafod perthnasau rhywiol ac iach gyda chi, a sicrhau eich bod yn gallu mynnu cyngor ar gynllunio teulu ac atal cenhedlu.

Hoffem i chi ddechrau teulu ar yr adeg orau i chi. Gallwn eich helpu i baratoi ar gyfer dod yn rhiant. Gall hyn gynnwys cyfleoedd i ddysgu am ofalu am fabanod a phlant, mentoriaeth a chyngor gan rieni sy'n esiampl dda (megis gofalwyr maeth) a darparu cefnogaeth i'ch helpu chi weithio drwy eich meddyliau a theimladau ynghylch y rhiant rydych chi wedi'i brofi.

**Pryd ydych chi'n disgwyl i'r baban gyrraedd neu i ddod yn rhiant**

Mae iechyd a llesiant mamau beichiog a babanod yn flaenoriaeth i ni yn ystod beichiogrwydd. Rydym hefyd wedi ymrwymi i gefnogi llesiant a chynhwysiad tadau.

Mae anghenion ac amgylchiadau unigol yn wahanol. Bydd rhai rhieni angen ychydig o gefnogaeth a bydd eraill, o bosib, angen mwy. Rydym yn addo gwrando arnoch chi, i fod yn onest â chi a gweithio gyda chi er mwyn sicrhau:

- Mae popeth sydd ei angen arnoch gennych chi, gan gynnwys lle i fyw, arian ac eitemau hanfodol
- Rydych yn ymwybodol o'ch hawliau a hawliadau, gan gynnwys budd-daliadau, grantiau ac adnoddau yn eich ardal leol
- Rydych yn gwybod beth i'w wneud, yn deall sut i newid napi neu ymolchi baban, pryd i geisio cyngor meddygol neu sut i gofrestru ar gyfer lle mewn ysgol, deintydd neu optegydd. Bydd y gefnogaeth hon yn parhau oherwydd bydd yr hyd y mae'n rhaid i chi ei wybod yn newid wrth i'ch plentyn fynd yn hŷn.

Mae rhianta yn werth chweil ond gall hefyd fod yn heriol. Rydym yn addo gweithio gyda chi fel eich bod chi'n deall:

- Pwy sydd ar gael i'ch cefnogi chi. Byddwn yn sicrhau eich bod chi'n gwybod pwy i gysylltu ag o/hi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnoch, hyd yn oed yng nghanol nos neu ar benwythnosau.
- Pa wasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael yn eich awdurdod neu ardal leol. Byddwn yn trafod yr opsiynau hyn gyda chi, a'ch helpu chi i fynychu sesiynau os byddwch yn dymuno hynny. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sydd ar gael i rieni yn ogystal â'r rheiny sydd ar gael yn benodol ar gyfer rhieni sydd â phrofiad o ofal.

- Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael cyfle am seibiant. Gall hyn fod yn amser i orffwyso neu ddechrau hobi/diddordeb. Byddwn yn sicrhau eich bod yn gallu defnyddio ein canolfannau hamdden a'n campfeydd.
- Gallwn eich helpu chi i baratoi at eich dyfodol. Byddwn yn eich cefnogi i barhau â'ch addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gall hyn gynnwys darparu cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd yn ogystal â chymorth ymarferol gyda gofal plant, trafnidiaeth neu unrhyw beth arall.

**Herio stigma a gwahaniaethu**

Rydym yn deall eich bod chi, a rhieni eraill mewn gofal ac sy'n ei adael, yn gallu profi stigma ac anfantais. Byddwn yn:

- Sicrhau bod adnoddau ar gael sy'n herio rhagdybiaethau di-fudd am rieni mewn gofal, neu sydd wedi bod dan ofal.
- Ei gwneud hi'n glir nad yw'n dderbyniol atgyfeirio i Wasanaethau Plant yn seiliedig ar statws gofal neu hanes yn unig. Ystyrir hyn yn wahaniaethu. Dylid codi pryderon ynghylch rhianta dim ond pan mae tystiolaeth o risg.

Os codir pryderon am rianta, byddwn yn sicrhau:

- Bod eirioli a chynghorion cyfreithiol ar gael ichi.
- Na ddefnyddir eich hanes o dan ofal yn eich erbyn. Os bydd angen asesu safon eich rhianta, rydyn ni'n addo eich helpu a gofalu y byddwch chi'n cael eich asesu yn ôl eich sefyllfa bresennol nid eich hanes.
- Y byddwch chi'n cael pob cyfle teg ac yn cael eich parchu. Lle rydych chi a'ch teulu'n poeni a fydd yr asesu'n deg, byddwn ni'n trafod y dewisiadau gyda chi megis cofnodi trafodaethau gyda gweithwyr cymdeithasol neu gael eich asesu gan weithiwr cymdeithasol annibynnol.

Byddwn yn eich helpu i ymateb i bryderon ynghylch magu plant. Bydd hynny'n ymwneud â'r canlynol:

- Deall beth sy'n digwydd a pha gynlluniau sydd ar waith.
- Cyfle i chi ddweud eich dweud.
- Cymorth ar gyfer lleddfu pryderon a dangos eich bod wedi newid. Gan gynnwys cymorth ynghylch tai, iechyd y meddwl neu gwnsela, cyrsiau cynnal perthynas neu rianta a gwasanaethau cyffuriau/alcohol.

Os ydych chi'n byw ar wahân i'ch plant:

Gallai rhieni fod ar wahân i'w plant am nifer o resymau. Gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes pryderon ynghylch magu plant (megis pan fydd plant yn byw gyda rhiant arall), yn ogystal â phan fydd plant wedi'u symud dros dro neu'n barhaol.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, byddwn ni'n eich helpu i feithrin a chynnal perthynas â'ch plentyn oni bai bo rheswm cyfeithiol na allwn wneud hynny. Yn ôl y sefyllfa, gall y cymorth fod o natur ymarferol (megis eich helpu i weld eich plentyn a threulio amser gydag e), ariannol (megis treuliau teithio), emosiynol (megis trafod eich meddyliau a'ch teimladau) a sicrhau bod gennych fynediad at eiriolaeth neu gyngor cyfreithiol (sicrhau bod hawliadu eich plentyn i'ch gweld chi yn cael eu parchu).

Os yw'ch plentyn wedi'i symud, fyddwn ni byth yn cefnu arnoch chi na rhoi'r gorau i weithio â chi. Byddwn ni'n treulio amser i'ch cefnogi chi a delio â'r goblygiadau ymarferol, ariannol ac emosiynol. Gall hyn gynnwys eich cefnogi trwy'r achos yn y llys, mynychu cyfarfodydd, delio â materion tai, rheoli newidiadau i fudd-daliadau yn ogystal ag ymdopi â galar a cholled. Byddwn yn eich cefnogi i feithrin a chynnal perthynas â'ch plentyn, hyd yn oed os mai drwy gyswllt blwch llythyrau y bydd hynny.

**Yn olaf**

Ni yw eich rhieni corfforaethol, ac mae gwneud ein gorau i gefnogi rhieni mewn gofal, ac sy'n gadael gofal, yn bwysig i ni.

Rydym yn addo y bydd y gefnogaeth hon ar gael i rieni hyd at bump ar hugain oed, ac rydym yn disgwyl cael ein herio os byddwn yn methu o ran ein cyfrifoldebau.

Rydym hefyd yn addo parhau i adolygu ein gwaith a byddwn yn parhau i weithio gyda rhieni, gwasanaethau ac elusennau i sicrhau bod rhieni mewn gofal, ac sy'n gadael gofal, yn cael eu cefnogi'n deg.

**Llofnodwyr**

Fon Roberts
(Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithaso – Cyngor Sir Ynys Môn)

Cynghorydd Gary Pritchard
(Aelod Portffolio – Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid (Gwasanaethau Cymdeithasol) – Cyngor Sir Ynys Môn)

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 19eg Ebrill 2023 |
| **Pwnc:** | Meysydd Gwelliant Hunan-Asesiad 2022 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Robert Ll. Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Carwyn E. Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. Argymhelliad/ion**

**1.1.** Hwn yw adroddiad cyntaf o'i fath yn cydnabod cyflawniad yn erbyn meysydd gwelliant Hunan-Asesiad 2022. Mae'n dangos ac yn cyfleu diweddariad yn erbyn y gweithredoedd o welliant cysylltiedig fel a gytunwyd gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022.

**1.2.** Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn heriol am wahanol resymau; mae gan y Cyngor weinyddiaeth newydd, tim arweinyddol newydd a bellach gynllun strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28. Serch yr holl newidiadau a datblygiadau dros y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n gyson, yn cwblhau disgwyliadau yn erbyn y mwyafrif o feysydd gwelliant Hunan-asesiad 2022 ac yn dygymod a disgwyliadau'r ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 newydd yn bwrpasol.

**1.3.** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y diweddariad a nodi'r meysydd mae'r Tim Arweinyddol (27.2.23) ynghyd a'r Bwrdd Rhaglen Moderneiddio (30.3.23) yn ei gynnig fydd yn parhau drosodd i Hunan-Asesiad 2023 er budd cyflawniad cyflawn. Nodir y bydd y geiriad drafft isod (1.4) yn debygol o esblygu erbyn cytuno a mabwysiadu dogfen Hunan Asesiad 2023.

**1.4.** Rhestrir y rhai hynny fel a ganlyn -

**1.4.1.** Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosib

**1.4.2.** Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff;

**1.4.3.** Adolygu a diwygio'r strategaeth rheoli risg, y polisi a'r canllawiau, a fydd yn ffurfio fframwaith clir a chryno o safbwynt rheoli risg, i'w dilyn ar draws y Cyngor

**1.4.4.** Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff

**1.4.5.** Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid

**1.4.6.** Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor;

**1.4.7.** Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth.

**1.4.8.** Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig y Pwyllgor Gwaith

**1.5.** Argymell i'r Pwyllgor Gwaith wedi craffu, bod y ffrydiau uchod (1.4.1 – 1.4.8) yn ddilys i'w parhau ac i gael eu cynnwys yn Hunan-Asesiad Corfforaethol 2023.

**2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses gwerthuso a monitro gwelliant blynyddol fel sy'n ddisgwyliedig o dan ddisgwyliadau deddf Llywodraeth Leol ac Ethloliadau (Cymru) 2021

**3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio

- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. Beth ydy rôl yr hunan-asesiad yn ein trefniadau llywodraethiant corfforaethol?<br><br>2. Sut y bydd angen i'r Cyngor ddiwygio'r Sgorfwrdd Monitro Perfformiad Chwarterol i sicrhau aliniad gyda'r hunan-asesiad?<br><br>3. Mae'r hunan-asesiad yn cyfeirio at nifer o feysydd i'w datblygu ymhellach. Sut y bwriedir blaenoriaethu'r ffrydiau gwaith hyn? |

**5. Cefndir / Cyd-destun**

Fel rhan o ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cydnabyddir y dyletswydd canlynol ar Gyngor Sir Ynys Môn –

**…….. i adolygu ei berfformiad yn barhaus**

(1) Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—

(a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,

(b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac

(c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)

**ac, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol,**

lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth fodloni'r gofynion perfformiad (a, b & c uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

I ddiwallu'r disgwyliad uchod, ystyriwyd drafft 2022 gan -

Gyngor Sir Ynys Môn fel drafft gweithredol yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2022 cyn gwahodd sylwadau pellach gan

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Hydref 2022 ac oddi yno wedyn mabwysiadwyd y fersiwn terfynol gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad A – Meysydd Gwelliant Hunan-Asesiad 2022 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Hunan-Asesiad Corfforaethol - 2022 |

Glas = Heb ddechrau
Gwyrdd = Cwblhawyd
Melyn = Ar y Trywydd
Ambr = Ar ei hôl hi, mesurau lliniaru ar waith i ddal i fyny
Coch = Methu â bodloni'r amserlen. Angen cyfeiriad gan y Tîm Arweinyddiaeth ynghylch y ffordd ymlaen
Pinc = argymhelliad arfaethedig i barhau i Hunan Asesiad 2023

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol / Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Parhau i fonitro a gwella'r dangosyddion a effeithiwyd gan y pandemig coronafeirws i sicrhau y caiff unrhyw risgiau cysylltiedig eu rheoli'n briodol | Pob Gwasanaeth | Dechrau – Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae'r holl ddangosyddion a gafodd eu heffeithio gan bandemig y coronafeirws yn cael eu monitro unwaith eto fel rhan o'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol heblaw am ddau ddangosydd. Y ddau sy'n parhau i gael eu heffeithio yw –<br><br>1) Y broses o oedi wrth drosglwyddo gofal - sydd ddim wedi bod ar gael gan BIPBC.<br>2) Canran o fusnesau risg uchel a oedd yn destun arolygiadau a gynlluniwyd ac a gafodd eu harchwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd – nad yw ar y Cerdyn Sgorio eto gan fod Iechyd yr Amgylchedd yn dilyn Cynllun adfer covid yr ASB sy'n canolbwyntio ar agweddau eraill cyn y dangosydd hwn. Mae'r dangosydd yn cael ei fonitro o fewn y gwasanaeth.<br><br>Er bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion sy'n weddill wedi gwella ar eu perfformiadau, mae rhai'n parhau i gael eu heffeithio (yn bennaf o ran y galw am wasanaethau) oherwydd y cynnydd mewn costau byw a'r cynnydd mewn tlodi. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â pholisïau trwy ddefnyddio '4Policy', a bod staff nad ydynt yn gallu cael mynediad i '4Policy' yn gallu adolygu a derbyn y polisïau mewn modd sy'n gweithio iddyn nhw; | Pob Gwasanaeth | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen - Mawrth 23 | Y Tîm Arweinyddiaeth sy'n gyfrifol bellach am oruchwylio.<br><br>Cwblhau adolygiadau staff yn erbyn polisïau craidd fel a ganlyn –<br>a. Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – 96%<br>b. Polisi Diogelwch TG – 95%<br>c. Polisi Diogelu Corfforaethol – 94%<br>d. Polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos – 89%<br><br>Rhagor o bolisïau craidd i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.<br>Mae cyfraddau cwblhau yn dangos lefel sicrwydd uchel. | |
| Gwella cydymffurfiaeth staff yn erbyn yr holl fodiwlau e-ddysgu ar y Learning Pool | Pob Gwasanaeth | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Yn gyffredinol, 72% yn cydymffurfio ag e-hyfforddiant gorfodol o Drais yn erbyn Menywod, GDPR, Caethwasiaeth Fodern, Seiberddiogelwch ac Ataliol.<br><br>Gwaith wedi'i dargedu dan gyfarwyddyd y Tîm Arwain i gynyddu cydymffurfiaeth a hyfforddi gweithwyr maes yn ystod 2023 wedi cychwyn. | |
| Esblygiad pellach 'gweithio hybrid', gan gydbwyso'r gofynion o ran timau staff a pherfformiad, profiadau cwsmeriaid, iechyd a lles staff a dewis personol | Pob Gwasanaeth | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Monitro presenoldeb wythnosol ar waith.<br>e.e. data'r wythnos yn dechrau 16 Ionawr fel a ganlyn -<br><br>Nifer y staff ar gyfartaledd sy'n mynd i'r swydd bob dydd (Pencadlys â'r Ganolfan Fusnes) – 350<br>Nifer y desgiau sydd ar gael o fewn y Pencadlys â'r Ganolfan Fusnes gan gadw rhywfaint o bellter cymdeithasol - 556<br><br>Adolygiad o'r peilot i'w gynnal yn ystod Chwarter 4. | |
| Parhau i ddatblygu ac adolygu partneriaethau i sicrhau | Pob Gwasanaeth | Dechrau - Ion 22 | Dan Raglen Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru mae adolygiad o bartneriaethau strategol yn cael ei gynnal. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| eu bod yn ateb y gofyn ac yn cyd-fynd â chynllun newydd a diwygiedig y Cyngor (2023/28), ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill. | | Gorffen – Mawrth 23 | Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cael eu hadrodd i Gyngor Partneriaeth Cymru yn 2023, gyda'r bwriad o gytuno ar safbwynt gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd ar y ffordd ymlaen.<br><br>CSYM i gadw golwg. | |

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol /** **Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu dull cydweithredol i gofnodi allbynnau a mesurau ar draws gweithlu'r Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n cynnwys y proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol. | Gwasanaethau Oedolion | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae integreiddio proffesiynau a gwasanaethau iechyd i system WCCIS yn darparu cyfleoedd estynedig i fonitro a gwerthuso'r ymateb ar y cyd i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae disgwyl y bydd cyfleoedd yn cael eu hehangu wrth i nifer y staff iechyd gynyddu a lefel y rhyngweithio gynyddu. | |
| Adolygu'r broses Un Pwynt Mynediad (SPOA) i ganfod yr agweddau y gellir eu gwella a sut y gellir gwneud hynny | Gwasanaethau Oedolion | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae'r SPOA Gwasanaethau Oedolion bellach wedi uno â Teulu Môn fel 'un drws ffrynt' i bawb sy'n dymuno cysylltu â'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd neu'r Gwasanaeth Oedolion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb mewn ymateb a hefyd i ddelio â theuluoedd mewn ffordd fwy 'cyfannol'. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio drwy systemau a phrosesau WCCIS' er mwyn lleihau amser staff wrth fewnbynnu data ac ati - a fydd yn ei dro yn gwneud profiad y 'defnyddiwr gwasanaeth' yn fwy syml. | |

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol / Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Bod y Cyngor yn datblygu ac yn mabwysiadu strategaeth gyfalaf sy'n cyd-fynd â chynllun newydd y Cyngor (2022/27). | Swyddfa'r Prif Weithredwr | Dechrau Chwefror '22<br>Gorffen Ebrill '23 | Strategaeth gyfalaf flynyddol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn yn ystod Mawrth, 2023.<br>Datblygu strategaeth gyfalaf ddiwygiedig ymhellach ar ôl mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd. | |



| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol / Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ei ehangu rhaglen Dechrau'n Deg ar draws yr Ynys, yn hytrach na rhai ardaloedd, a fydd yn y pen draw yn lleihau'r angen i blant sy'n dod i mewn i'r gwasanaethau statudol ac yn lleihau ein poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. | Gwasanaeth Plant a Theuluoedd | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Ehangu ar gyfer 22-23 wedi'i gwblhau yn unol â chanllawiau LlC, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys ardal Porthladd Amlwch ac yn ymestyn y Rhaglen i 52 blentyn ychwanegol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymestyn elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn unig ar gyfer 23 - 25. Fel awdurdod rydym yn gweithio ar sawl datblygiad fydd yn cefnogi teuluoedd a phlant ar draws Ynys Môn. E.e. gyda'r grant Braenaru Rhanbarthol rydym yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau a phartneriaid fel y Bwrdd Iechyd i gefnogi teuluoedd, a chyflwyno rhaglen gymorth newydd i rieni ar sail darpariaeth wedi'i thargedu yn hytrach nag un cyffredinol er mwyn lleihau'r cyfeiriadau at wasanaethau statudol dros amser. | |

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol / Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol adolygu pob ymateb gan y gwasanaethau i sicrhau eu bod yn fodlon gyda graddiad perfformiad Da ar gyfer Diogelu Corfforaethol | Bwrdd Diogelu Corfforaethol | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae adroddiad terfynol ynghylch diogelu o'r adolygiadau Gwasanaeth (Ionawr 2023) wedi cael ei anfon ymlaen i sylw'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol i'w ystyried ymhellach. | |
| Dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gytuno ar gynllun gweithredu yn dilyn cwblhau hunanasesiadau gan y Gwasanaethau, a dylai'r bwrdd barhau i'w fonitro wrth fynd ymlaen | Bwrdd Diogelu Corfforaethol | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae'r rhaglen wella Adolygu Gwasanaeth ynghylch diogelu sy'n cael ei gweithredu gan y Bwrdd Diogelu o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | |

Tudalen 51

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol /** ***Leading Service*** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Darlledu cyfarfodydd hybrid ffurfiol y Cyngor mewn modd effeithiol a phroffesiynol | Busnes y Cyngor | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Cwblhawyd | |
| Parhau i roi disgwyliadau ar waith o safbwynt rheoleiddio ar adeg o newid, trwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Busnes y Cyngor | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Datblygodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro Gynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r newidiadau sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ar 9 Mawrth 2021, brifiodd y Cyngor Sir ar y Ddeddf.<br><br>Ar 20 Ebrill 2021, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda manylion am newidiadau cyfansoddiadol sydd i ddod a fydd yn effeithio arno oherwydd y Ddeddf newydd.<br><br>Ar 8 Chwefror 2022, rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd o ran recriwtio aelodau lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.<br><br>Ar 19 Ebrill 2022, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg adroddiad pellach i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn ddiweddarach ar 25 Ebrill 2022 i'r Cyngor Sir, ynghylch yr effaith y byddai'r Ddeddf yn ei chael ar gyfansoddiad aelodaeth y pwyllgor (adrannau 116-118). Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r dewis a phenodi tri aelod lleyg ychwanegol a bod yr aelod lleyg presennol yn parhau am ail dymor o bum mlynedd. Fe | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | wnaeth yr adroddiad hefyd atgoffa'r Pwyllgor yn gryno am y diwygiadau ehangach i'r drefn perfformiad a llywodraethu. | |

| **Meysydd i'w gwella / *Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol / Leading Service** | **Dyddiad Targed / *Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol / *Quarterly Update*** | **CAG / *RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae'r dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro bob chwarter fel rhan o'r Adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Hyd yma, mae gwelliant wedi bod ar y perfformiad a welwyd y llynedd, ond mae angen gwella ymhellach os yw'r Cyngor am gyrraedd y targed o 70% erbyn 2025.<br><br>Mae perfformiad yn 63.9% yn erbyn targed o 64% hyd at ddiwedd Chwarter 3. Gan fod hwn yn ddangosydd cronnus disgwylir iddo ostwng mewn perfformiad yn ystod Chwarter 4 a bydd yn agos at y targed blynyddol o 64% ond mae'n ddigon posibl y bydd o dan y targed hwn.<br>Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda WRAP Cymru i nodi'r ffordd orau o wella'r dangosydd yn y dyfodol fel y gellir cyrraedd y targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025. | |

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol /** **Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Gwella perfformiad o fewn y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, gyda sylw arbennig i ddangosyddion o fewn y swyddogaeth Cynllunio | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae tri dangosydd yn ymwneud â Chynllunio sy'n cael eu monitro yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Mae'r perfformiad ar hyn o bryd yn amrywio o'r naill chwarter i'r llall, yn enwedig o ran y dangosydd Apeliadau Cynllunio a Wrthodwyd lle mae set ddata fach. Mae'r dangosydd wedi gweld gwelliant yn ystod Chwarter 3 lle gwrthodwyd 2 o'r 3 apêl gan ddod â'r cyfanswm cronnus i 47% yn erbyn targed o 65%.<br><br>Perfformiad o ran nifer y ceisiadau cynllunio y penderfynir arnynt o fewn amser, mae hyn wedi gwella unwaith eto ac mae bellach ar y targed gyda pherfformiad o 90%.<br><br>Mae dangosydd arall ar orfodaeth cynllunio hefyd yn perfformio'n uwch na'r targed. | |

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol /** **Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff; | Adnoddau | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Diweddariad - cymhorthdal 2019/20 wedi'i gwblhau a disgwyl taliad DWP a dderbyniwyd Ionawr 2023.<br><br>Profion yn parhau ynghylch hawliadau 2020/21 gyda'r nod o gwblhau'r gwaith yn ystod Chwarter 1 o 23/24. Mae hyn yn dibynnu ar adnoddau sydd ar gael gan Archwilio Cymru ar ôl i SoA 21/22 gael ei gymeradwyo ym mis Ionawr.<br><br>Adnodd wedi'i sicrhau i wireddu hawliad 21/22 yn dilyn cymeradwyo hawliad 20/21. Anelu at gwblhau erbyn diwedd Chwarter 2 o flwyddyn ariannol 23/24. | |

Tudalen 55

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd hyn wedyn yn sicrhau ein bod yn ôl ar y trywydd iawn gyda hawliadau o'r fath gyda'r nod o gymeradwyo 22/23 yn ystod Chwarter 3 o 23/24. | |
| Bod y Cyngor yn adolygu ac yn diwygio ei broses flynyddol o bennu'r gyllideb i sicrhau y gellir rhoi camau ar waith ar gyfer 2023/24 i liniaru'r pwysau cynyddol a bod adnoddau'r Cynghorau'n cael eu defnyddio mor effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol wrth ystyried y pwysau a'r costau ychwanegol parhaus ar hyn o bryd | Adnoddau | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae'r gyllideb arfaethedig a fabwysiadwyd ar gyfer 23/24 gan y Cyngor Llawn (9.3.23) yn dangos bod y nod hwn yn cael ei gyflawni mewn cyfnod o newid a phwysau ychwanegol | |
| Adolygu a diwygio'r strategaeth rheoli risg, y polisi a'r canllawiau, a fydd yn ffurfio fframwaith clir a chryno o safbwynt rheoli risg, i'w dilyn ar draws y Cyngor | Adnoddau | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Ym mis Chwefror 2022, adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cynnal adolygiad trylwyr o'r gofrestr risg gorfforaethol gyfan, a phenderfynwyd y dylai ffocws y Tîm Arweinyddiaeth fod ar y risgiau o ran cyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor. Ar y cyd â'r Tîm Arweinyddiaeth, datblygodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant gofrestr risg strategol newydd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol, yn lle'r gofrestr risg gorfforaethol.<br><br>Cafodd y matrics asesu risg hefyd ei adolygu a'i ddiweddaru. Diwygiwyd pob un o'r disgrifwyr 'Tebygolrwydd', yn ogystal â nifer o'r disgrifwyr 'Effaith'.<br><br>Bydd y gofrestr risg strategol yn destun adolygiad strwythurol pellach pan fydd y Cyngor wedi cytuno ar ei flaenoriaethau corfforaethol newydd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Yn y cyfamser, mae adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Risg a'r Canllawiau ar y gweill ar hyn o bryd ac fe'u cwblheir unwaith y bydd fersiwn newydd wedi'i huwchraddio o'r feddalwedd rheoli risg (4risk) yn cael ei gweithredu – mae hyn wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2023. Bydd swyddogion yn cynnig arweiniad a chefnogaeth glir i reoli risg ymhellach ar draws y Cyngor. Yn dilyn ymgynghori a chytuno gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, bydd y Strategaeth a'r Canllawiau newydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hystyried. | |

Tudalen 56

| **Meysydd i'w gwella /** ***Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol / Leading Service** | **Dyddiad Targed /** ***Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol /** ***Quarterly Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff | Trawsnewid | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Heb ddechrau | |
| Cael adborth ar brofiadau cwsmeriaid o ran y System Ffôn Gorfforaethol a'r switsfwrdd i lywio gwelliannau at y dyfodol; | Trawsnewid | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Nid yw'r system bresennol bellach yn gallu rhoi adborth yn uniongyrchol gan gwsmeriaid eu profiad<br>Papur wedi'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ynghylch y ffordd ymlaen– 3.1.23.<br><br>Cytunwyd ar gynllun gweithredu gan Fwrdd y Rhaglen Foderneiddio Gorfforaethol gyda'r cam cyntaf i'w weithredu yn ystod Chwarter 1 o 23/24. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Parhad pellach y newid o ran y sianel ddigidol trwy lansio 'Sgwrsfot' dwyieithog 'Mona' i hwyluso chwiliadau digidol a wneir gan gwsmeriaid ynghyd â phrofiadau ar-lein | Trawsnewid | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Lansio sgwrsfot 'Mona' yn Sioe Môn 2022.<br>Y nifer sy'n ei ddefnyddio yn gyson dros y misoedd diwethaf.<br><br>Data o ran defnydd ers mis Awst 2022 =<br>Defnyddwyr misol cyfartalog – 1,051<br>Rhyngweithio misol cyfartalog – 3,574<br><br>Rhaniad iaith y rhyngweithiadau –<br>8% Cymraeg / 92% Saesneg<br><br>Pynciau rhyngweithio mwyaf poblogaidd yn gysylltiedig â –<br>1. Gwastraff<br>2. Treth y Cyngor<br>3. Tai | |
| Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid | Trawsnewid | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Papur wedi'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth 3.1.23 yn amlinellu rhaglen waith i'w mabwysiadu er mwyn sicrhau profiad mwy cyflawn i gwsmeriaid. Rhaglen waith i ganolbwyntio ar y meysydd canlynol –<br><br>• CRM – yn fyw o 7.3.23<br>• System ffôn – gweler uchod<br>• Boddhad cwsmeriaid<br>• Siarter gwasanaethau cwsmeriaid<br>• Hunaniaeth gorfforaethol<br>• Canolfan gyswllt cwsmeriaid<br><br>Cynnydd o ran datblygiad i'w gyfathrebu drwy Fwrdd y Rhaglen Foderneiddio Gorfforaethol. | |

Tudalen 57

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor; | Trawsnewid | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae meddalwedd rheoli risg y Cyngor (4risk) yn cynnwys modiwl, sy'n caniatáu defnyddio'r model tair llinell sicrwydd i gofnodi sicrwydd yn erbyn risg, ar lefel risg a rheoli. Mae'r Dadansoddwr Busnes a Pherfformiad Corfforaethol, Trawsnewid, yn gallu cofnodi'r sicrwydd ar 4risk.<br><br>Mewn cyfarfod o'r Grŵp Adolygu Perfformiad a Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2022 ystyriwyd dull y Cyngor o gael y sicrwydd perthnasol ac mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i gael y sicrwydd hynny.<br><br>Mae Archwilio Mewnol yn uwchlwytho ei fodel tair llinell sicrwydd yn uniongyrchol i'r system wrth gwblhau archwiliadau perthnasol. | |
| Datblygu a chyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw staff | Trawsnewid | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Penodwyd Swyddog Recriwtio a Marchnata Rhan amser Dros Dro ym mis Ebrill 2022, tan fis Mai 2023.<br><br>Strategaeth recriwtio a marchnata wedi'i derbyn gan LT - 08.08.22. Tasgau ar ffurf cynllun gweithredu mewnol yn cael eu gweithredu i helpu i recriwtio a chadw staff yn yr Awdurdod.<br><br>Mae hyn wedi cynnwys –<br>• disgrifiadau swydd ar eu newydd wedd<br>• hysbysebion ar eu newydd wedd<br>• ail-gadarnhau presenoldeb yr Awdurdod ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gyflwyno llwyfan Linked-in ac Instagram ochr yn ochr â'r dudalen Facebook.<br>• Mae gwasanaeth tanysgrifio swyddi gwag wedi'i gyflwyno<br>• Mae cysylltiadau cryfach wedi'u gwneud gyda cholegau lleol - Prifysgol Bangor, Canolfan Byd Gwaith, ac ysgolion i hyrwyddo'r Awdurdod<br>• Gwnaed cysylltiadau agosach gyda'r gwasanaethau i sefydlu anghenion recriwtio a sut y gellir marchnata'r rhain.<br><br>Mae datblygiadau yn y dyfodol yn ailgynllunio'r adran swyddi ar y wefan gorfforaethol, holiaduron cadw staff i lywio strategaethau ar gadw staff, uwch recriwtio/ adnoddau marchnata recriwtio penaethiaid. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Rhoi argymhellion yr Archwiliadau Allanol (cenedlaethol a lleol) ar waith a'u monitro gan ddefnyddio '4Action' | Trawsnewid | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae 'prosiect' ar wahân o fewn 4action, system olrhain camau archwilio mewnol y Cyngor, yn galluogi i'r argymhellion archwilio allanol gael eu cofnodi a'u monitro gan y system. Sefydlwyd y Dadansoddwr Busnes a Pherfformiad Corfforaethol, Trawsnewid, ar y system ym mis Tachwedd 2021 a derbyniodd sesiwn hyfforddiant byr i'w alluogi i ddechrau cofnodi'r camau gweithredu.<br><br>Ni ddechreuwyd uwchlwytho camau i'r system hyd yma oherwydd blaenoriaethau eraill.<br><br>Ar ddau achlysur (9 Rhagfyr 2021 ac 8 Rhagfyr 2022), rhoddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, Trawsnewid, adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i sicrhau'r Pwyllgor bod gwasanaethau perthnasol y Cyngor wedi ystyried yr argymhellion a bod yr argymhellion, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael sylw.<br><br>Adnodd pellach yn cael ei sicrhau i wireddu hyn yn ystod Chwarter 1 o 23/24. | |
| Sicrhau esblygiad pellach a chyflenwi cynlluniau datblygu gweithlu ar lefel Gwasanaethau unigol i gydbwyso perfformiad, moderneiddio, parhad busnes, iechyd a lles staff. | Trawsnewid - yn Arwain / Pob Gwasanaeth | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Mae strategaeth y gweithlu wedi'i diweddaru, a fersiwn derfynol wedi'i chreu yn dilyn adborth gan TA ar y 03.01.23.<br><br>Fersiwn derfynol i'w halinio â nodau ac amcanion diwygiedig Cynllun y Cyngor ar gyfer 23-28.<br><br>Mae Swyddogion Adnoddau Dynol yn parhau i gyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth bob chwarter i drafod eu cynlluniau ar gyfer y gweithlu, sy'n gweithredu fel dull i nodi risgiau yn y gweithle ac anghenion y dyfodol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cyflwynodd y gwasanaeth AD ddogfen canllawiau lles staff yn 2022, ac mae ganddynt galendr lles staff ar gyfer 2023 gyda phwnc gwahanol ar gyfer pob mis. Ym mis Ionawr 2023 cafwyd 'her lles' i staff.<br><br>Yn y cyfnod ar ôl y pandemig – rhagwelir y bydd hyn yn dod yn drefn arferol. | |
| Ymgorffori'r Sgwrs Flynyddol rhwng Rheolwyr a staff ymhellach | Trawsnewid - yn Arwain / Pob Gwasanaeth | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Gwreiddio ac arweiniad pellach i wasanaethau wedi'u cyflwyno – Ionawr 2023.<br><br>Materion gwasanaeth yn ymwneud â gweithredu wedi'u trafod mewn adolygiadau gwasanaeth blynyddol. | |



| **Meysydd i'w gwella / *Area for improvement*** | **Gwasanaeth Arweiniol / Leading Service** | **Dyddiad Targed / *Target Date*** | **Diweddariad Chwarterol / *Quarterly Update*** | **CAG / *RAG*** |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth. | Grŵp Datblygu Data Canolog | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Penodwyd Dadansoddwr Data Corfforaethol Mehefin 2022.<br><br>Cytuno y dylid prynu trwyddedau 'premiwm' Microsoft Power BI ar gyfer yr Awdurdod. Newidiadau i Amodau a Thelerau Microsoft yn cael sylw.<br><br>Dangosfwrdd data newid hinsawdd wedi'i ddrafftio.<br>Adroddiad data o ymgynghoriad ar flaenoriaethau strategol wedi'i ddrafftio gan ddefnyddio Power BI.<br>Tystiolaeth o wneud penderfyniadau trwy ddefnyddio dangosfwrdd tanysgrifio gwastraff gardd gwyrdd trwy Power BI | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 'Cynllun gweithredu' data diwygiedig yn cael ei ddrafftio i'w weithredu yn ystod 23/24 | |
| Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig y Pwyllgor Gwaith | Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori Corfforaethol | Dechrau - Ion 22<br><br>Gorffen – Mawrth 23 | Drafft cyntaf wedi'i gwblhau ar gyfer sylw TA - Hydref 2022.<br><br>Diffyg adnodd i ddatblygu ymhellach yn ystod Chwarter 3.<br><br>Blaenoriaethau staff i gael eu hail-werthuso i symud ymlaen yn ystod Chwarter 4. | |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Ebrill, 2023** |
| **Pwnc:** | **Enwebiad Pwyllgor – Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Enwebu un Aelod Etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Rhiantu Corfforaethol** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Robert Llewelyn Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Alun Roberts, Deilydd Portffolio Gwasanaeth Oedolion a Diogelwch Cymunedol**<br>**Cyng Gary Pritchard, Deilydd Portffolio Gwasanaeth Plant, Ieuenctid a Thai**<br>**Cyng Ieuan Williams, Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol enwebu un Aelod Etholedig o blith y Pwyllgor Sgriwtini i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol** a'r **Panel Rhiantu Corfforaethol**. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Amherthnasol |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-** |
| **3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]** |
| **3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]** |
| **3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |
| **3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]** |
| **3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt: |

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Amherthnasol

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth i nifer o banelau sydd angen cynrychiolaeth Aelod Sgriwtini mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022. Cytunwyd ar enwebiadau ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn trafod aelodaeth y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol.

1.2 Mae cylch gorchwyl y Panelau ynghlwm (**Atodiad 1 a 2**) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses enwebu.

2. **Trafodaeth**

2.1 **Aelodaeth y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol**

Nid yw aelodaeth y panelau'n ddarostyngedig i'r egwyddorion a'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol[1]. Mae aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 4 Aelod o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini[2]
- **Deilyddion Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant)** – fel sylwedyddion heb bleidlais
- **Swyddogion –** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Rheolwr Sgriwtini.

2.2 **Aelodaeth Gyfredol y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol**

Yn sgil ystyriaeth gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini ym mis Mehefin 2022[3], mae aelodaeth gyfredol y Panel fel a ganlyn:

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (4 Aelod)**
    i. Cyng Neville Evans

[1] Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

[3] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022 a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 21 Mehefin, 2022

ii. Cyng Jackie Lewis
iii. Cyng Llio Angharad Owen
iv. Cyng Alwen Watkin

- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (4 Aelod)**
  i. Cyng Jeff Evans
  ii. Cyng John Ifan Jones
  iii. Cyng Euryn Morris (Cadair)
  iv. Cyng Pip O'Neill (Is-gadair).

- Mae un sedd wag wedi codi ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol o ganlyniad i ymddiswyddiad y Cynghorydd Neville Evans – yn sgil ei benodiad diweddar i'r Pwyllgor Gwaith. Daw'r sedd wag hon o blith yr Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini enwebu un Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amherthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Amherthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amherthnasol |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Cylch Gorchwyl – Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cylch Gorchwyl – Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol (Rhiantu Corfforaethol) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**Atodiad 1**

**CYLCH GORCHWYL A *MODUS OPERANDI***

**PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - RHIANTU CORFFORAETHOL**

## 1. Pwrpas y Panel Rhiantu Corfforaethol

Mae'r plant sydd yn ein gofal yn ogystal â'r bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 'blant i ni'. Fel Cyngor, rydym yn hynod uchelgeisiol ac am i bob plentyn/person ifanc yr ydym yn gyfrifol amdano gyrraedd ei lawn botensial.

Prif flaenoriaeth i Gyngor Môn yw bod Ynys Môn yn rhywle lle mae ein plant yn ffynnu. Fel rhieni corfforaethol, mae gan aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor, gyda chymorth cydweithwyr o asiantaethau statudol eraill, ddyletswydd i sicrhau bod llais a phrofiad ein plant yn ystod eu cyfnod mewn gofal, ac wedi hynny wrth iddynt adael gofal, yn cael ei glywed; bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u bod yn derbyn yr un cyfleoedd mewn bywyd ag unrhyw blentyn arall.

Er mwyn cyflawni hyn:

- Bydd rhaid i aelodau etholedig hyrwyddo anghenion ein plant
- Bydd rhaid i bartneriaid fod â disgwyliadau uchel ar gyfer ein plant
- Bydd rhaid i Bartneriaeth Diogelu Gogledd Cymru a'r Panel Rhiantu Corfforaethol (PRC) ddarparu arweinyddiaeth effeithiol a chyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygu gwasanaethau sy'n cael eu harchwilio o ran eu heffeithiolrwydd.

Wrth ymarfer ei ddyletswyddau, bydd y panel yn ymwybodol o'r angen i hyrwyddo'r canlynol ar gyfer y plant y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt:

- Lles corfforol, meddyliol ac emosiynol
- Gwarchod rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Perthnasoedd teuluol a phersonol
- Ymwneud â'r gymuned leol
- Sicrhau breiniau a hawliau yn cynnwys peidio â byw mewn tlodi
- Byw mewn llety addas.

Y cyd-destun deddfwriaethol yw A78 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd yn rhoi dyletswydd ar gynghorau i ddiogelu a hyrwyddo lles bob plentyn y mae'n gofalu amdano, yn ogystal â phob un sy'n gadael gofal.

## 2. Cyfrifoldebau'r Panel Rhiantu Corfforaethol

1. Sicrhau bod hyrwyddwyr plant ac hyrwyddwyr plant mewn gofal y Cyngor yn parhau i weithredu fel eiriolwr ar ran ein plant

2. Derbyn a chraffu ar adroddiadau mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer ein plant

3. Monitro a herio gwelliannau i'r gwasanaeth yn drwyadl, ynghyd ag effaith ymarfer gwaith cymdeithasol ar wella canlyniadau ar gyfer ein plan

4. Monitro a herio effeithiolrwydd y gwasanaethau o ran gwella cyraeddiadau addysgol ein plant

5. Monitro a herio effeithiolrwydd y gwasanaethau wrth wella iechyd corfforol ac emosiynol ein plant

6. Sicrhau bod cyfleoedd hamdden a diwylliannol yn cael eu cynnig, a'u derbyn, gan ein plant

7. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth aelodau ynglŷn â'n plant; eu hanghenion a'u profiadau, o fewn y Cyngor ac yn y gymuned ehangach

8. Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig yn gallu cyflawni eu rôl fel hyrwyddwyr rhiantu corfforaethol ac eiriolwyr ar ran ein plant drwy gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol iddynt

9. Bod yn uchelgeisiol i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ein plant

10. Sicrhau bod llais a phrofiad y plentyn yn ganolog i waith y Cyngor yn ei gyfanrwydd a bod yn greadigol wrth ystyried ym mha ffyrdd y bydd y Panel Rhiantu Corfforaethol (PRC) yn gwrando ar safbwyntiau ein plant ac ymateb iddynt

11. Datblygu arbenigedd mewn materion sy'n effeithio ar ein plant

12. Darparu cyfeiriad strategol rhyngasiantaethol er mwyn cyflawni canlyniadau da ar gyfer ein plant

13. Cyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal; herio a dal i gyfrif o ran ei gyflawni

14. Cyflawni 'addewid' y Cyngor i'n plant

15. Adrodd yn flynyddol i'r Cyngor, gan amlinellu'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a nodi rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

**3. Aelodaeth a Llywodraethiant y Panel Rhiantu Corfforaethol**

Cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol ynghyd â chyfarfod ymlaen llaw i bennu'r rhaglen.

**Aelodaeth**

Prif Weithredwr Cyngor Môn (Cadeirydd)

**Aelodau Etholedig**

Cyng Euryn Morris
Cyng Pip O'Neill
Cyng Neville Evans

Cyng Llio Angharad Owen
Cyng Jackie Owen
Cyng Alwen Watkin
Cyng John Ifan Jones
Cyng Jeff Evans

Cyng Gary Pritchard
Cyng Ieuan Williams

**Cynrychiolwyr Cyrff Allanol**
Aelod o Gymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn
Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Aelod o Dros Gynnal

**Swyddogion**
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys
Rheolwr Gwasanaeth – Addysg Plant mewn Gofal, Ieuenctid a Lles Plant a Phobl Ifanc
Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu
Rheolwr Integredig – Plant ag Anableddau
Swyddog Adolygu Annibynnol
Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiant
Swyddog Iechyd Plant Sy'n Derbyn Gofal
Rheolwr Tîm – Tîm Lleoli Plant.

**4. Cyfrifoldebau**

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod y Panel yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan swyddogion i arwain y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol.

Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Ymyrraeth Ddwys fydd swyddog arweiniol y Panel gyda chymorth gan arweinwyr gwasanaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, mabwysiadu a maethu ac eiriolaeth.

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am drefniadau gweinyddol y Panel ac am ddarparu arweiniad cyfansoddiadol. Bydd y rhaglen ac adroddiadau'n cael eu dosbarthu wythnos cyn y cyfarfod.